# Atodiad II: Adolygiad o'r Cynlluniau, Rhaglenni a'r Prosiectau

### Cynlluniau Datblygu

- Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022 (Mabwysiadwyd 2013)
- Cynllun Datblygu wedi'i Adneuo Cyngor Sir Ddinbych 2006 - 2021 (Mabwysiadwyd 2013)
- Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007 - 2022 (Mabwysiadwyd 2013)
- Cynllun Datblygu Lleol Powys 2011-2026 (Drafft Adneuo Gorffennaf 2014)
- Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri 2007-2022 (Mabwysiadwyd Mai Gorffennaf 2011)

### Trafnidiaeth

- Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru (Drafft Ymgynghori 2015)
- Cynllun Lleol Trafnidiaeth ar y Cyd Gogledd Cymru (Drafft ar gyfer Ymgynghori Tachwedd 2014)

### Dŵr

- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol Dŵr Cymru (2014)
- Diweddariad Cynllun Rheoli Basn Afon Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru (Dogfen Ymgynghori, 2015)
- Cynllun Rheoli Basn Afon Ardal Basn Afon Dyfrdwy 2015-2021 Crynodeb Arfaethedig, Hydref 2015)
- Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren (2015 Diweddariad Arfaethedig)
- Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2

### Gwastraff a Mwynau

- Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru Dogfen Graidd Adolygiad 1af (2009)
- Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru Adolygiad 1af (2014)

### Ynni

- Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni (EN-1 (2011)
- Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear (EN-6) (2011)
- Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012)
- SeaGen, Cynlluniau Ynni'r Llanw, Ynys Môn (2011)
- Gwynt ar y Môr, Gwynt y Môr (2011)
- Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd
- Grid Cenedlaethol: Cysylltiadau Gogledd-orllewin Cymru (2013)

### Eraill

- Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru (2010-2015)

- Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd (2010)
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn (2012-2016)
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd (2013-2020)

# Cynlluniau Datblygu

| Cynlluniau Datblygu | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022 (Mabwysiadwyd 2013)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Ardal Weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Awst 2012) Cynllun Datblygu Lleol Conwy (Adnau Diwygiedig 2011) Papur Cefndir Diwygiedig 11 – Cyflwyniad, Adroddiad Sgrinio - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau posib all greu effeithiau 'cyfunol'** |
| Nodir yng Nghynllun Datblygu Lleol Conwy bolisïau a bwriadau yn ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy ar gyfer datblygu a defnyddio tir ac adeiladau yng nghyswllt economeg; twristiaeth, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol; yr amgylchedd naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, trafnidiaeth gynaliadwy a mwynau a gwastraff.<br><br>Mae'r Cyngor yn cynnig lefel gynaliadwy o dwf sy'n cynnwys rhwng tua; 6,520 o unedau tai newydd gyda lefel wrth gefn o 10% hyd at 7,170; 2,350 o swyddi newydd gyda lefel wrth gefn hyd at 2,585 sy'n adlewyrchu newid poblogaeth naturiol; 1,800 o swyddi newydd gyda lefel wrth gefn hyd at 1,980 i gyfrannu at leihau lefelau cymudo allan; a 1,875 o unedau tai fforddiadwy newydd. Yn ogystal, mae'r Strategaeth yn gwneud darpariaeth i ddiwallu'r angen am; randiroedd, mynwentydd, mannau agored, diogelu mwynau, cyfleusterau gwastraff a seilwaith trafnidiaeth.<br><br>Bydd 85% o'r datblygiad tai a chyflogaeth yn cael ei leoli yn bennaf yn y prif ardaloedd trefol; Abergele/ Pensarn, Bae | Daeth Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Awst 2012) i'r casgliad na fydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cael effaith sylweddol ar gyfanrwydd unrhyw un o'r Safleoedd Ewropeaidd yng Nghynllun yr Ardal nac mewn ardaloedd cyfagos, ar ei ben ei hun nac yn gyfunol gyda chynlluniau neu brosiectau eraill ac, o'r herwydd, ni fydd raid iddynt wrth Asesiad Priodol.<br><br>Yn gyffredinol, mae'r polisïau yng Nghynllun Datblygu Lleol Conwy yn gadarnhaol a phroactif o ran cadwraeth, gwella a gwarchod bioamrywiaeth, yn cynnwys cyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd. Tra bydd yn cefnogi gwaith datblygu ar y safleoedd yr awgrymir eu neilltuo, bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn diogelu tirluniau, cynefinoedd a safleoedd o bwysigrwydd a, lle bo'n bosib, eu gwella. |

| Cynlluniau Datblygu | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022 (Mabwysiadwyd 2013)** | |
| Colwyn (yn cynnwys Llandrillo-yn-Rhos a Hen Golwyn), Conwy, Deganwy/ Llanrhos, Llandudno, Cyffordd Llandudno, Llanrwst, Mochdre, Penmaenmawr, Bae Penrhyn/ Penrhynside a Thywyn/ Bae Cinmel.<br><br>Bydd gweddill y datblygiad yn cael ei leoli o fewn y Prif Bentrefi, Pentrefi Bychain a Phentrefannau, ond yn bennaf ym Mhentrefi Haen 1 a Haen 2. Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni 100% o ddatblygiadau tai fforddiadwy lle bo modd o fewn Prif Bentrefi Haen 2. Bydd Prif Bentrefi yn parhau i ddarparu gwasanaeth swyddogaethol ar gyfer y Pentrefi Bychain a Phentrefannau.<br><br>Mae Ardal y Cynllun yn cynnwys nifer o safleoedd Ewropeaidd, yn cynnwys: Ardal Cadwraeth Arbennig Pen y Gogarth; Ardal Cadwraeth Arbennig y Fenai a Bae Conwy; Ardal Cadwraeth Arbennig Migneint – Arenig - Dduallt; Ardaloedd Gwarchod Arbennig Traeth Lafan, Bae Conwy; ac Ardal Gwarchod Arbennig Migneint – Arenig - Dduallt.<br><br>Wrth geisio cefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach Ardal y Cynllun, mae'r Cyngor Bwrdeistrefol Sirol yn ceisio rheoleiddio gwaith datblygu er mwyn cadw a, lle bo'n bosib, wella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir Ardal y Cynllun. Cyflawnir hyn yn rhannol trwy ddiogelu safleoedd o bwys rhyngwladol yn unol â gofynion y Polisi Cynllunio Cenedlaethol. | |

| Cynlluniau Datblygu | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych 2006 - 2021 (Mabwysiadwyd 2013)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Cyngor Sir Ddinbych |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Ardal Weinyddol Cyngor Sir Ddinbych |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Cyngor Sir Ddinbych (Mai 2011) Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd dan Reoliad 61/62 y Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010,' Cynllun Datblygu Lleol Adnau Cyngor Sir Ddinbych 2006 – 2021. |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau posib all gael effeithiau 'cyfunol'** |
| Yng Nghynllun Datblygu Lleol Adnau Cyngor Sir Ddinbych nodir polisïau a bwriadau yn ardal weinyddol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer datblygu a defnyddio tir ac adeiladau yng nghyswllt nifer o themâu, yn cynnwys; Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy; Hyrwyddo Economi Cynaliadwy, Parchu ein Hamgylchedd; a Chyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy.<br><br>Mae Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn darparu ar gyfer 7,500 o anheddau newydd yn ystod cyfnod y Cynllun ac oddeutu 50 hectar o dir cyflogaeth. Mae strategaeth ofodol y CDLl yn canolbwyntio'r datblygu i nifer fechan o safleoedd mawr yng ngogledd y Sir, gyda datblygiadau newydd ar raddfa lai yn cael eu cefnogi mewn aneddiadau eraill yn y Sir. Felly, bydd dyraniadau newydd yn cael eu lleoli yn bennaf ym Modelwyddan ac aneddiadau eraill i'r gogledd o'r A55, ynghyd â safleoedd yn Ninbych, Llanelwy, Rhuthun a Chorwen. Bydd gweddill y cartrefi newydd yn cael eu cynnwys o fewn y ffiniau datblygu presennol, a safleoedd ar raddfa lai wedi eu dyrannu mewn aneddiadau eraill i gwrdd ag anghenion lleol.<br>Mae Bodelwyddan wedi cael ei adnabod fel Safle Strategol Allweddol; bydd y safle mawr hwn yn darparu tai newydd, | Mae'r asesiad sgrinio hwn a gynhaliwyd yn dod i'r casgliad na nodwyd effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd. Mae polisïau yn eu lle i warchod safleoedd Ewropeaidd. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ymrwymo i fonitro effaith datblygiadau newydd ar yr amgylchedd naturiol (Pennod 9 y Cynllun Datblygu Lleol ar Fonitro a Gweithredu) ar y cyd â thrydydd partïon fel Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych a Chyngor Cefn Gwlad Cymru lle nad yw datblygiadau/ gwaith cynnal a chadw angen caniatâd cynllunio. |

| **Cynlluniau Datblygu** | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych 2006 - 2021 (Mabwysiadwyd 2013)** | |
| cyfleoedd cyflogaeth, mannau agored a chyfleusterau cymunedol.<br><br>Mae Ardal y Cynllun yn cynnwys nifer o safleoedd Ewropeaidd, yn cynnwys: ACA Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd; ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid; AGA y Berwyn; ac AGA Bae Lerpwl.<br><br>Cyfeiria'r Cynllun Datblygu Lleol yn benodol at 'ardaloedd gwarchod' yn Amcan 16 sy'n nodi: 'Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio gwarchod a gwella treftadaeth naturiol ac adeiledig y Sir, gan gynnwys agweddau megis tirwedd, bioamrywiaeth, geoamrywiaeth, safleoedd ac adeiladau dynodedig, a rhywogaethau a warchodir. Bydd gwasanaethau a nwyddau amgylcheddol hefyd yn cael eu gwella a'u datblygu. Dyluniwyd nifer o bolisïau i gyfrannu at gwrdd â'r amcan hwn, gan gynnwys Polisïau; RD1, RD2, PSE11, a PSE12. | |

| **Cynlluniau Datblygu** | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007 - 2022 (Mabwysiadwyd 2013)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Cyngor Sir Ceredigion |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Ardal Weinyddol Cyngor Sir Ceredigion |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Cyngor Sir Ceredigion (Rhagfyr 2010) Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion, Fersiwn Adneuo'r Adroddiad Sgrinio.<br><br>Adroddiad Atodol Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cyngor Sir Ceredigion |

| Cynlluniau Datblygu | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007 - 2022 (Mabwysiadwyd 2013)** | |
| | (2011) |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau Posib all achosi effeithiau 'cyfunol'** |
| Nodir yn Nghynllun Datblygu Lleol Ceredigion bolisïau a bwriadau yn ardal weinyddol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer datblygu a defnyddio tir ac adeiladau. Mae'r Cynllun yn ceisio darparu tua 6,544 o anheddau newydd yn ystod oes y Cynllun, y mae o leiaf 51% ohonynt yn cael eu cynnwys yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol; Aberaeron, Aberteifi, Aberystwyth, Castell Newydd Emlyn, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron. Mae 24% o ddatblygiad yn cael ei gynnwys yn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ac uchafswm o 25% yn cael ei gynnwys yn yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill' sy'n weddill.<br><br>Mae'r Cynllun yn ceisio darparu ar gyfer 4000 o swyddi newydd; dyrannwyd 39ha o dir yn Aberystwyth ac Aberteifi, ond gellir caniatáu datblygiadau hefyd ar safleoedd sydd heb eu dyrannu yn unol â pholisïau LU11-LU21.<br><br>Mae Ardal y Cynllun yn cynnwys nifer o safleoedd Ewropeaidd, yn cynnwys: Ardal Cadwraeth Arbennig Cors Fochno; Cors Fochno a Ramsar Dyfi; Ardal Gwarchod Arbennig Elenydd – Mallaen; ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau.<br><br>Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cyfeirio at sawl amcan gyda pholisïau cyfatebol sydd â'r nod o gadw a gwella tirlun Ceredigion sy'n cwmpasu'r amgylchedd gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol; ac osgoi colli bioamrywiaeth a'i gysylltiad rhwng cynefinoedd Ceredigion a | Daeth yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer Cynllun Datblygu Ceredigion i'r casgliad na fydd bwriadau'n cael unrhyw effaith negyddol sylweddol ar y Safleoedd Rhyngwladol a nodwyd, ar eu pennau eu hunain nac yn gyfunol gyda chynlluniau neu brosiectau eraill, gan gadw mewn cof gamau lliniaru yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) ;<br>- Polisïau sy'n gostwng neu'n cael gwared ag effeithiau megis DM12: isadeiledd gwasanaethau cyhoeddus sy'n rhwystro datblygiadau os oes materion capasiti yn yr isadeiledd neu'r cyrff dŵr yr effeithir arnynt, onid oes modd datrys y materion hyn neu bod modd cynnwys camau interim derbyniol;<br>- Strategaeth gynaliadwy a chanolbwyntio ar ddatblygu trwy ostwng yr angen i deithio;<br>- Mesurau gwrthweithio megis y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol; a<br>- Rhybudd ARhC ar gyfer unrhyw bolisïau lle nad oedd yr effeithiau'n wybyddus ac, felly, nid oedd modd eu lliniaru.<br><br>Mae polisïau yn eu lle i warchod safleoedd Ewropeaidd. |

| **Cynlluniau Datblygu** | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007 - 2022 (Mabwysiadwyd 2013)** | |
| gwella'r fioamrywiaeth a'r cysylltiad hwn. Wrth wneud hyn mae'n gwella mwynhad a dealltwriaeth o fioamrywiaeth trwy annog mynediad i safleoedd o ddiddordeb cadwraethol; ar yr amod y diogelir eu cyfanrwydd ecolegol. | |

| **Cynlluniau Datblygu** | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Powys 2011 - 2026 (Drafft Adneuo Mehefin 2015)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Cyngor Sir Powys |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Ardal Weinyddol Cyngor Sir Powys |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Cynllun Datblygu Lleol Powys - Adnau - Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Mehefin 2015). |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau posib all achosi effeithiau 'cyfunol'** |
| Yng Nghynllun Datblygu Lleol Powys nodir polisïau a bwriadau yn ardal weinyddol Cyngor Sir Powys ar gyfer datblygu a defnyddio tir ac adeiladau yng nghyswllt y canlynol: Rheoli Datblygu, Adeiladau Rhestredig, Datblygu Economaidd, Trafnidiaeth, Tai, Cynllunio ar gyfer Adwerthu a Chanol Trefi, Twristiaeth, Gwastraff, Ynni Cynaliadwy, Mwynau, Cyfleusterau Cymunedol a Gweithrediadau Milwrol. Nid yw'r Cynllun yn berthnasol i dir o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.<br><br>Mae'r Cynllun yn ceisio darparu 49ha o dir cyflogaeth newydd ar gyfer y cyfnod 2011-2026, ac mae hefyd yn dyrannu Ardaloedd Twf Lleol (LGZs) (model amgen i Ardaloedd Menter) i gefnogi twf mewn ardaloedd dynodedig. Mae'r rhain yn cael | Ystyriodd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd 52 o Safleoedd Ewropeaidd o fewn dylanwad CDLl Powys, ac mae canfyddiadau'r asesiad yn dangos na fydd gweithredu Cynllun Datblygu Lleol Powys yn cael effaith sylweddol debygol ar y safleoedd Ewropeaidd a ystyriwyd fel rhan o'r sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac ni fydd angen Asesiad Priodol llawn dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Fodd bynnag, mae angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel prosiect ar y cam cais cynllunio ar gyfer nifer fawr o'r dyraniadau a chynigion a gefnogir gan bolisïau yn y cynllun. |

| Cynlluniau Datblygu | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Powys 2011 - 2026 (Drafft Adneuo Mehefin 2015)** | |
| eu sefydlu yn Nyffryn Hafren (Y Trallwng, Drenewydd a Llanidloes), Rhaeadr/ Llandrindod/ Llanfair-ym-Muallt, Aberhonddu/ Bronllys/ Talgarth, ac Ystradgynlais. Mae'r Camau Gweithredu a menter sy'n cael eu harchwilio o dan LGZs cynnwys; Ardal Gwella Busnes, prosiect hwyluso Menter, rhaglen Treftadaeth Treflun, prosiect galluogi Wi-Fi a Gorchmynion Datblygu Lleol. Er y bydd y mentrau hyn yn cael eu cynnal y tu allan i'r CDLl, mae'r LGZs wedi cael eu hystyried yn y broses Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau, lle y bo'n briodol, fod polisïau a chynigion y Cynllun yn darparu fframwaith cynllunio defnydd tir cefnogol. Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio darparu 5519 o anheddau newydd yn ystod oes y Cynllun, a 1044 o gartrefi fforddiadwy newydd.<br><br>Mae dosbarthiad twf yn seiliedig ar hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy gyda lefelau datblygiad wedi'u dyrannu i aneddiadau sy'n gymesur â'u maint a'u safle yn yr hierarchaeth. Mae'r hierarchaeth aneddiadau yn cynnwys Trefi, Pentrefi Mawr, Pentrefi Bach, Aneddiadau Gwledig a Chefn Gwlad Agored. Mae'r prif Drefi yn cynnwys; Llanfair-ym-Muallt (yn cynnwys Llanelwedd), Trefyclo, Llandrindod, Llanfair Caereinion, Llanfyllin, Llanidloes, Llanwrtyd, Machynlleth, Trefaldwyn, Y Drenewydd, Llanandras, Rhaeadr Gwy, Y Trallwng, Ystradgynlais, a'r Gelli Gandryll (er fod y Dref hon o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Gwelir y Trefi hyn fel y prif leoliad ar gyfer cynnwys tai, cyflogaeth a thwf manwerthu. Daw datblygiadau yn fwy cyfyngedig wrth symud i lawr yr hierarchaeth. Mae'r datblygiad mewn Aneddiadau Gwledig yn gyfyngedig i gwrdd â thai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol yn unig drwy dai fforddiadwy gwledig unigol, ac mae datblygu yn y Cefn Gwlad Agored yn gyfyngedig i Eiddo Gweithwyr Menter Wledig a Datblygiadau Un Blaned yn | |

| Cynlluniau Datblygu | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Powys 2011 - 2026 (Drafft Adneuo Mehefin 2015)** | |
| ogystal ag ail-ddefnyddio adeiladau gwledig ar gyfer pwrpasau economaidd a phreswyl ble'n briodol.<br><br>Mae Ardal y Cynllun yn cynnwys nifer o safleoedd Ewropeaidd yn cynnwys: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig y Berwyn a Mynyddoedd De Clwyd ; Ardal Gwarchod Arbennig Elenydd – Mallaen; ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau.; Ardal Gwarchod Arbennig y Berwyn; Ardal Gwarchod Arbennig Elenydd – Mallaen; a Chors Fochno a Ramsar Dyfi.<br><br>Mae Polisïau Rheoli Datblygu (e.e. DM1) yn cyfeirio'n benodol at nodweddion yr amgylchedd naturiol sy'n dal gwerth yn y Sir, gan gynnwys Safleoedd/ Cynefinoedd Ewropeaidd a Warchodir. Mae Polisi DM1 yn diogelu amcanion cywirdeb a chadwraeth y safleoedd hyn rhag effeithiau andwyol. | |

| Cynlluniau Datblygu | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri 2007-2022 (Mabwysiadwyd Gorffennaf 2011)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Ardal Weinyddol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Hyder Consulting Ltd (Chwefror 2008) Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol – Adroddiad Sgrinio, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau Posib a allai achosi effeithiau 'cyfunol'** |

| Cynlluniau Datblygu | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri 2007-2022 (Mabwysiadwyd Gorffennaf 2011)** | |
| Yng **Nghynllun Datblygu Parc Cenedlaethol Eryri** nodir polisïau a bwriadau yn ardal weinyddol Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer datblygu a defnyddio tir ac adeiladau yng nghyswllt yr amcanion a ganlyn: Datblygiad Cyffredinol; Gwarchod, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol; Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Diwylliannol a Hanesyddol; Hyrwyddo Cymunedau Iach a Chynaliadwy; Cefnogi Economi Gwledig Cynaliadwy; a hyrwyddo hygyrchedd a Chynhwysiad<br><br>Mae'r Canolfannau Gwasanaeth Lleol, sef Dolgellau a'r Bala yn cael eu nodi'n ardaloedd o gyfle, lle bydd y rhan fwyaf o dai yn cael eu codi ac y ceir y rhan fwyaf o ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Mae'r ardaloedd hyn yn adlewyrchu'r sgôp am ddatblygiad, yn seiliedig ar hygyrchedd a maint cyfleusterau presennol.<br><br>Yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru, mae cynllun i wneud i ffwrdd â Phont Briwet, Penrhyndeudraeth wedi'i gynnig fel gwelliant strategol i gysylltiadau trafnidiaeth yn yr ardal.<br><br>Mae Ardal y Cynllun yn cynnwys nifer o safleoedd Ewropeaidd yn cynnwys: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig y Berwyn a Mynyddoedd De Clwyd ; Ardal Gwarchod Arbennig y Berwyn; Cors Fochno a Ramsar Dyfi, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Coedydd Derw Meirionnydd a safleoedd ystlumod; Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morfa Harlech a Morfa Dyffryn; Ardal Cadwraeth Arbennig Rhinog; Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Eden, Cors Goch – Trawsfynydd; Ardal Cadwraeth Arbennig Coedydd Aber; Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn; Ardal Cadwraeth Arbennig Cadair Idris; ac Ardal Cadwraeth Arbennig / Ardal Gwarchod | |

| Cynlluniau Datblygu | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri 2007-2022 (Mabwysiadwyd Gorffennaf 2011)** | |
| Arbennig Migneint-Arenig-Dduallt.<br><br>Mae'r polisïau'n sicrhau bod pob gwaith datblygu'n mynd rhagddo mewn modd sy'n parchu safleoedd Ewropeaidd ac yn sicrhau bod yr amrywiaeth a'r doreth o gynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau a warchodir yn cael eu gwarchod a'u gwella. Yn ôl Polisi Strategol D: Amgylchedd Naturiol, 'ni chaniateir bwriadau datblygu sy'n debygol o gael effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd (un ai ar eu pennau eu hunain neu'n gyfunol gyda chynlluniau neu brosiectau eraill) oni bai bod gofynion Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 wedi eu cyflawni. | |

## Trafnidiaeth

| Trafnidiaeth | |
|---|---|
| **Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru (Drafft Ymgynghori 2015)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Cynulliad Cymru |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Cymru |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | TRL (2014) Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015 Datganiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i Hysbysu Asesiad Priodol, Fersiwn Ymgynghori Rhagfyr 2014 |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau Posib a allai achosi effeithiau 'cyfunol'** |
| Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol wedi ei ddatblygu yn unol â pholisïau ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth fel y nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru[1], ac i ddarparu'r fframwaith cyffredinol y mae ymyriadau trafnidiaeth yn cael eu hadnabod, eu hasesu, eu cynllunio, eu darparu a'u gwerthuso oddi mewn iddo.<br><br>Y pum blaenoriaeth allweddol ar gyfer y Cynllun yw:<br>▪ Twf economaidd: cefnogi twf economaidd a diogelu swyddi gyda ffocws penodol ar y Rhanbarthau Dinas, Ardaloedd Menter a Pharthau Twf Lleol<br>▪ Mynediad i gyflogaeth: lleihau anweithgarwch economaidd drwy ddarparu mynediad diogel a fforddiadwy i gyflogaeth<br>▪ Ymdrin â thlodi: gwneud y gorau o'r cyfraniad y gall | Mae canfyddiadau'r Datganiad ARhC yn dod i'r casgliad nad yw yr un o'r ymyriadau yn gysylltiedig yn uniongyrchol nac yn angenrheidiol i reoli'r safle ar gyfer cadwraeth natur. Nodwyd 12 o ymyriadau'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn ystod y broses sgrinio fel rhai nad oeddynt yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar Safleoedd Ewropeaidd. Nodwyd 3 o ymyriadau'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol fel rhai oedd yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar chwe Safle Ewropeaidd gwahanol, a nodwyd y tri ymyriad a'r safleoedd canlynol ar gyfer Asesiad Priodol; ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn, ACA Tywi, ACA Glynllifon, AGA Afon Wysg, ACA Aber Hafren a Ramsar Aber Afon Hafren.<br><br>Nodir mesurau osgoi a lliniaru yn yr Asesiad Priodol a fyddai'n sicrhau bod yr effeithiau andwyol posibl a nodwyd (boed o adeiladu neu weithredu) yn cael eu hosgoi neu eu lliniaru. Byddai'r mesurau hyn yn cael eu defnyddio'n drylwyr yn ystod cynllunio a darparu ymyriadau, gyda chyngor gan Gyfoeth |

[1] Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2008) [ar-lein] http://wales.gov.uk/docs/det/publications/140909-transport-strategy-en.pdf [cyrchwyd Ionawr 2015]

| Trafnidiaeth | |
|---|---|
| **Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru (Drafft Ymgynghori 2015)** | |
| gwasanaethau trafnidiaeth effeithiol a fforddiadwy ei wneud i ymdrin â thlodi a thargedu buddsoddiad i gefnogi gwelliannau o ran hygyrchedd i'r cymunedau mwyaf difreintiedig<br>▪ Teithio a diogelwch cynaliadwy: annog teithio mwy diogel, iach a chynaliadwy<br>▪ Mynediad i wasanaethau: cysylltu cymunedau a galluogi mynediad i wasanaethau allweddol<br><br>Mae nifer o ymyriadau yn cael eu cyflwyno o dan y pynciau, a dangosir yr amcanion hyn isod:<br>▪ Ffyrdd - gweithredu rhwydwaith ffyrdd diogel ac effeithlon a gwella mynediad i gyflogaeth<br>▪ Cludo Nwyddau - sicrhau bod gofynion cludo nwyddau yn cael ystyriaeth lawn wrth ddatblygu'r holl ymyriadau trafnidiaeth<br>▪ Teithio Llesol - cefnogi gweithrediad Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013<br>▪ Seilwaith a gwasanaethau rheilffyrdd - cefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau seilwaith ymrwymedig a sicrhau darpariaeth gwasanaethau rheilffyrdd o ansawdd dda yng Nghymru drwy reolaeth effeithiol o Fasnachfraint Rheilffordd Cymru a'r Gororau, adeiladau perthynas waith gadarnhaol gyda gweithredwyr masnachfraint eraill sy'n gwasanaethu Cymru a nodi blaenoriaethau ar gyfer y fasnachfraint nesaf<br>▪ Bysiau a thrafnidiaeth gymunedol - parhau i ddyrannu cyllid i gefnogi gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus<br>▪ Plant a phobl ifanc - sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyfranogi yn y broses o benderfynu ar flaenoriaethau ar | Naturiol Cymru. O ystyried y lliniaru hwn, cesglir na fyddai'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, petai'n cael ei fabwysiadu ac o'i ystyried naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill, yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd unrhyw safleoedd Ewropeaidd. At ddibenion Rheoliad 61 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, gellir dod i'r casgliad, tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol, na fydd y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol drafft yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd unrhyw Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Bydd pob prosiect perthnasol yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn destun i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel prosiect/Asesiad o'r Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd (AIES) waeth beth fo canfyddiadau'r sgrinio na chyfnodau asesu priodol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn. |

| **Trafnidiaeth** | |
|---|---|
| **Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru (Drafft Ymgynghori 2015)** | |
| gyfer trafnidiaeth<br>▪ Dewisiadau gwybodaeth a thrafnidiaeth - cefnogi gwelliannau i farchnata a gwybodaeth<br>▪ Porthladdoedd - darparu cysylltedd gwell, a sicrhau fod gan Gymru gysylltiadau trafnidiaeth o ansawdd uchel a'i bod wedi'i chysylltu'n dda â gweddill y DU ac yn rhyngwladol<br>▪ Trafnidiaeth awyr - darparu cysylltedd gwell, a sicrhau fod gan Gymru gysylltiadau trafnidiaeth o ansawdd uchel a'i bod wedi'i chysylltu'n dda â gweddill y DU ac yn rhyngwladol.<br>▪ Cynllun bathodyn glas – parhau i adolygu gweithrediad y cynllun Bathodyn Glas<br>▪ Trafnidiaeth integredig a metro - darparu cysylltedd gwell, gwella hygyrchedd a diogelwch canolbwyntiau a gwasanaethau trafnidiaeth, gan alluogi gwell mynediad at wybodaeth ac integreiddio gwasanaethau, tocynnau ac amserlennu, a sicrhau gweithrediad effeithiol ac effeithlon o'r rhwydwaith trafnidiaeth<br>▪ Arloesedd, ymchwil a datblygu tystiolaeth - cefnogi arloesedd a chyflwyno technoleg newydd, a datblygu'r sylfaen dystiolaeth i hysbysu gwell atebion trafnidiaeth.<br><br>Mae'r ymyriadau hefyd wedi eu mapio yn adran 4 o'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. | |

| **Trafnidiaeth** |
|---|

| **Cynllun Lleol Trafnidiaeth ar y Cyd Gogledd Cymru - Drafft ar gyfer Ymgynghori Tachwedd (2014)** | |
|---|---|
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Cynhyrchwyd ar y cyd gan chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru; Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae rhan o Barc Cenedlaethol Eryri o fewn ardal y Cynllun a bu Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun. Goruchwyliwyd gan Taith. |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Ardaloedd gweinyddol Siroedd Môn, Conwy, Dinbych, y Fflint Gwynedd a Wrecsam. Dim ond rhannau gogleddol Gwynedd gaiff eu cynnwys yn y Cynllun; mae Meirionnydd yn cael ei gynnwys yn y CCLl ar gyfer Canolbarth Cymru. |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Hyder Consulting (UK) Ltd (2013) Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru. |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau Posib a allai achosi effeithiau cyfunol** |
| Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru (JLTP) yn strategaeth ar gyfer nodi a darparu gwelliannau i'r system drafnidiaeth yng Ngogledd Cymru, gyda'r weledigaeth; *i ddileu rhwystrau i dwf economaidd, ffyniant a lles drwy ddarparu rhwydweithiau trafnidiaeth diogel, cynaliadwy, fforddiadwy ac effeithiol.*<br><br>Y materion trafnidiaeth allweddol a nodwyd ar gyfer Gogledd Cymru yw:<br>▪ Gallu'r coridorau cefnffyrdd a rheilffyrdd strategol i ddarparu'r cysylltedd da angenrheidiol ar gyfer pobl a nwyddau o fewn Gogledd Cymru, i'r porthladdoedd ac i weddill y DU i gefnogi'r economi a swyddi, gan gynnwys twristiaeth<br>▪ Diffyg gwydnwch y rhwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd i ddigwyddiadau a gynlluniwyd ac nas cynlluniwyd gan gynnwys tywydd eithafol | Mae'r adroddiad sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi dod i'r casgliad, yn dilyn yr egwyddor ragofalus, na fu'n bosibl eithrio'r gofyniad am Asesiad Priodol mewn perthynas â'r safleoedd canlynol:<br><br>▪ ACA Cloddfeydd Coedwig Gwydyr<br>▪ ACA Coed Penrhyn Creuddyn<br>▪ ACA Corsydd Llŷn<br>▪ Ramsar Corsydd Môn a Llŷn<br>▪ ACA Afon Menai a Bae Conwy<br>▪ AGA Bae Lerpwl<br>▪ ACA Safleoedd Madfall Glannau Dyfrdwy a Bwcle<br>▪ ACA Glynllifon<br>▪ ACA Eryri / Snowdonia<br>▪ Arfordir Ynys Môn: ACA Morfa Heli |

**Trafnidiaeth**

**Cynllun Lleol Trafnidiaeth ar y Cyd Gogledd Cymru - Drafft ar gyfer Ymgynghori Tachwedd (2014)**

- Yr angen am fynediad da at y tri Pharth Menter yng Ngogledd Cymru, a rhyngddynt
- Diffyg dewisiadau amgen hyfyw a fforddiadwy i'r car i gael mynediad at safleoedd cyflogaeth allweddol a gwasanaethau eraill
- Yr angen am gysylltiadau ffordd da i/ o'r rhwydwaith cefnffyrdd i'r ardaloedd gwledig er mwyn helpu cadw hyfywedd busnesau lleol a chefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig.

Mae'r canlyniadau a nodwyd yn ffurfio crynodeb o'r hyn y mae'r JLTP yn ceisio ei gyflawni dros y pum mlynedd nesaf a hyd at 2030; ffurfiwyd yr ymyriadau a chynlluniau i gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hyn:

- Cysylltiadau i Gyrchfannau a Marchnadoedd Allweddol: cymorth ar gyfer twf economaidd trwy welliant yn effeithlonrwydd, dibynadwyedd, gwydnwch, a chysylltedd symudiad, gan gynnwys cludo nwyddau, o fewn a rhwng gogledd Cymru a rhanbarthau a gwledydd eraill (gan ganolbwyntio'n benodol ar hygyrchedd i'r Parthau Menter a gwelliant ym mywiogrwydd a hyfywedd trefi a chanolfannau allweddol eraill)
- Mynediad i Gyflogaeth: darparu mynediad cynhwysol a fforddiadwy i gyflogaeth a hyfforddiant (gan ganolbwyntio ar y cymunedau mwyaf difreintiedig)
- Mynediad i Wasanaethau: hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles drwy fynediad cynhwysol a fforddiadwy i addysg, gwasanaethau iechyd a chyfleusterau a gwasanaethau allweddol eraill (gan ganolbwyntio ar y cymunedau mwyaf difreintiedig)

- ACA Coedydd Derw Meirionnydd a Safleoedd Ystlumod
- ACA Safleoedd Ystlumod Tanat ac Efyrnwy
- ACA Pen Llŷn a'r Sarnau
- ACA Mynydd Helygain

Mae'r cynlluniau a fyddai'n effeithio ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd naill ai ar y cam dichonolrwydd, neu nid ydynt wedi cyrraedd y cam dylunio manwl eto, neu mae ansicrwydd ynghylch gweithredu. Mae hyn yn berthnasol i'r cynlluniau canlynol:

- Llwybrau Teithio Llesol - Dyffryn Conwy
- Llwybrau Teithio Llesol - Glan Conwy i RSPB
- Cyswllt A499 i Nefyn (B4417)
- A4086 Gwelliannau Ffordd Cibyn i Bont-rug
- Cyswllt Dinas Dinlle i A499
- A499 Ffordd osgoi Y Ffôr
- B4366 Gwella'r Ffordd o Bengelli i Fethel
- Gwella Capasiti – Ffordd gyswllt Belgrano i'r A55
- Yr Wyddgrug i'r Fflint a'r A548
- A487 (T) Cyswllt Allt Goch i'r A499
- A55 Hwb trafnidiaeth/ Parcio a Theithio i'r Wylfa
- A497 Gwelliannau Ffyrdd Criccieth i Borthmadog
- A497 Gwelliannau Ffyrdd Nefyn i Bwllheli
- Gwella cysylltedd trafnidiaeth i'r Rhwydwaith Priffyrdd Cefnffyrdd yr A55
- A499 Gwelliannau Lliniaru Llifogydd Ffordd Penrhos
- Cryfhau Pont (mannau cyfyng)
- A494 / A55 Llwybr i Gymru
- Gwella cysylltedd trafnidiaeth i'r Rhwydwaith Priffyrdd Cefnffyrdd yr

<table>
<tr><th colspan="2">Trafnidiaeth</th></tr>
<tr><th colspan="2">Cynllun Lleol Trafnidiaeth ar y Cyd Gogledd Cymru - Drafft ar gyfer Ymgynghori Tachwedd (2014)</th></tr>
<tr><td>

- Cynyddu lefelau Cerdded a Beicio: ar gyfer teithio angenrheidiol a hamdden, gan drigolion ac ymwelwyr
- Gwell Diogelwch a Sicrwydd: diogelwch gwirioneddol a chanfyddedig o deithio trwy bob dull
- Buddiannau a'r Effeithiau Lleiaf ar yr Amgylchedd: bydd y potensial i welliannau trafnidiaeth effeithio'n gadarnhaol ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig lleol a byd-eang wedi cael eu huchafu ac effeithiau negyddol wedi'u lleihau, gan gynnwys addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Bydd blaenoriaethu'r cynlluniau ac ymyriadau i ymdrin â'r canlyniadau hyn yn cael eu darparu yn y JLTP Terfynol.

</td><td>

A55

- Lliniaru Ardaloedd Perygl Llifogydd ar Lwybrau Strategol
- A4244 Llwybr aml-ddefnyddwyr Brynrefail i Groeslon Ty Mawr
- Ffordd Gyswllt Gaerwen
- Ffordd Gyswllt Llangefni
- Trafnidiaeth Strategol Newydd Gogledd Wrecsam

Nodwyd effeithiau posibl y JLTP, er y derbynnir y gall y rhain newid wrth i astudiaethau dichonoldeb gael eu cwblhau ac i waith dylunio manwl gael ei wneud. Rhagwelir y bydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel prosiect mewn perthynas â'r prosiectau a restrwyd. Er mwyn sicrhau y diogelir safleoedd dynodedig Ewropeaidd ar lefel strategol, argymhellir y dylai'r JLTP gynnwys mesurau ac argymhellion bras y bydd contractwyr yn cydymffurfio â nhw yn ystod y gwaith adeiladu neu gynnal a chadw er mwyn sicrhau bod safleoedd dynodedig Ewropeaidd yn cael eu gwarchod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Er mwyn osgoi y posibilrwydd y bydd llygryddion yn mynd i gyrsiau dŵr sensitif yn ystod gwaith cynnal a chadw ac adeiladu, dylai pob gweithrediad gael ei wneud yn unol â Chanllawiau Atal Llygredd (PPG) Nodyn 5 'Gweithiau mewn, yn agos at neu dros gyrsiau dŵr' a PPG Nodyn 6 'Safleoedd Adeiladu a Dymchwel'
- Dylai CEMP cadarn a manwl gael ei gynhyrchu mewn perthynas â'r holl waith o fewn neu'n gyfagos at safleoedd dynodedig Ewropeaidd. Dylai hyn gael ei adolygu a'i gytuno gyda NRW cyn dechrau'r gwaith er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle a ddiogelir
- Ni chaniateir unrhyw waith yn ystod y nos, a fyddai'n arwain at gynnydd neu newidiadau mewn lefelau golau nosol, o fewn neu'n gyfagos at ACA Cloddfeydd Coedwig Gwydyr, ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd ac ACA Glynllifon er mwyn diogelu rhywogaethau ystlumod cymwys

</td></tr>
</table>

| Trafnidiaeth | |
|---|---|
| **Cynllun Lleol Trafnidiaeth ar y Cyd Gogledd Cymru - Drafft ar gyfer Ymgynghori Tachwedd (2014)** | |
| | ▪ Bydd gwrychoedd yn cael eu diogelu a'u cadw cyn belled ag y bo modd er mwyn cynnal llwybrau cymudo rhywogaethau ystlumod cymwys ac osgoi darnio cynefinoedd. Os oes unrhyw dynnu gwrychoedd yn angenrheidiol, bydd rhaid plannu gan ddefnyddio rhywogaethau brodorol lleol yn eu lle<br><br>Ni ystyrir y byddai'r JLTP yn cael effaith sylweddol debygol ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd ar yr amod:<br>▪ Bod y cynlluniau yn symud ymlaen yn unol â'r mesurau uchod<br>▪ Bod yr holl ganiatâd cynllunio a statudol perthnasol yn cael ei sicrhau cyn i'r gwaith ddechrau<br>▪ Bod y gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r canllawiau cynllunio a deddfwriaeth berthnasol |

# Dŵr

| Dŵr | |
|---|---|
| **Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol Dŵr Cymru 2015-2040** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | **Dŵr Cymru** |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | **Ffin Dŵr Cymru** |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Amec (2013) Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Dŵr Cymru o Ddrafft Diwygiedig Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2013 - Asesiad o'r Opsiynau a Ffefrir |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau Posib a allai achosi effeithiau 'cyfunol'** |
| Mae'r CRhAD yn dangos sut y bydd y cyflenwad o ddŵr sydd ar gael a'r galw am ddŵr gan gwsmeriaid yn cael eu cydbwyso yn ystod y cyfnod hyd at 2040. Y nod yw cynnal cyflenwad dŵr mor effeithlon â phosibl ym mhob un o'r 24 Parth Adnoddau Dŵr.<br><br>Mae'r Cynllun yn amlygu dau fater o bwys sy'n effeithio ar argaeledd adnoddau dŵr ar hyn o bryd:<br><br>- Canlyniad yr ymarfer 'Adolygu Cydsyniadau' (RoC) Cyfoeth Naturiol Cymru a wnaed yng ngoleuni'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewropeaidd; ac<br>- Asesiad wedi'i ddiweddaru o effaith bosibl newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd dŵr yng Nghymru, fel y nodir yn Amcanestyniadau Newid yn yr Hinsawdd y DU 2009 (UKCP09) diweddaraf, a allai leihau faint o ddŵr sydd ar gael ar gyfer cyflenwad, a chynyddu'r galw gan gwsmeriaid | - Noda'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (2013) bod y CRhAD yn cyfrif am y Gostyngiadau Cynaliadwyedd sy'n ofynnol gan y RoC, ac felly mae'n benodol yn cyfrif am yr effeithiau sy'n digwydd yn y safleoedd Ewropeaidd (neu a ragwelir a fydd yn digwydd) o ganlyniad i gydsyniadau adnoddau dŵr presennol. Gyda'i gilydd, mae'r prosesau RoC a CRhAD hefyd yn sicrhau (cyn belled ag y gellir ei gyflawni) na fydd y newidiadau yn y galw i'r dyfodol yn effeithio ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd (mae hyn yn cael ei gynorthwyo gan gylch adolygu pum mlynedd CRhAD, sy'n monitro perfformiad y CRhAD a chaniatáu ar gyfer addasu'r rhagolygon galw).<br>- Casglodd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd bod y rhan fwyaf o'r Opsiynau a Ffefrir (ochr gyflenwi)yn annhebygol o gael effeithiau sylweddol (yn unigol nac ar y cyd) ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd, naill ai oherwydd absenoldeb llwybrau effaith; risg digon isel y bydd effeithiau'n digwydd lle ceir llwybrau; neu oherwydd y gellir nodi mesurau amgylcheddol addas ac y gellir dibynnu arnynt i osgoi unrhyw effeithiau sylweddol neu andwyol. Ni fydd yr opsiynau ar yr ochr alw yn cael unrhyw effeithiau sylweddol posibl y gellir eu hasesu ar y lefel strategol. |

| | |
|---|---|
| Mae'r ddwy elfen hon yn sylweddol leihau, neu ddileu, y gwargedion adnoddau dŵr mewn rhai parthau, a hyd yn oed yn creu diffygion a allai fod angen buddsoddiad sylweddol i ymdrin â nhw.<br><br>O'r 24 parth adnoddau dŵr, mae'r asesiadau CRhAD yn cadarnhau y rhagwelir diffyg rhwng cyflenwad a galw mewn 5 ohonynt dros y cyfnod cynllunio i 2040. Y parthau adnoddau dŵr hyn yw:<br><br>- Gogledd Eryri / Ynys Môn<br>- Tywyn / Aberdyfi<br>- Sir Benfro<br>- Aberhonddu / Portis<br>- SEWCUS<br><br>Yng Ngogledd Eryri Ynys Môn, gyrrir y diffyg erbyn 2024 gan gyfuniad o well dealltwriaeth o'r galw a ragwelir a hefyd effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd. Er mwyn cynnal y cydbwysedd rhwng galw a chyflenwad yn y parth hwn i 2040, bydd dŵr yn cael ei drosglwyddo o Gwm Dulyn i'r parth, bydd lefelau gollyngiadau yn cael eu gwella, a bydd gwaith effeithlonrwydd dŵr yn cael ei wneud i wella'r dŵr sydd ar gael i'w defnyddio o oddeutu 4Ml/d.<br><br>Yn Nhywyn Aberdyfi, mae'r diffyg y rhagwelir ar ôl 2016 yn cael ei yrru gan effaith bosibl newid yn yr hinsawdd wedi'i gyfuno â gwell rhagolygon galw i 2040. Mae'r Cynllun yn cynnig trosglwyddo dŵr crai o dynnu dŵr afon newydd yn Afon Dysynni a throsglwyddo'r dŵr hwn i WTW Penybont sydd â chapasiti dros ben, a thrwy hynny wneud y defnydd gorau o'r ased presennol hwn. Bydd angen capasiti triniaeth ychwanegol yn ddiweddarach yng nghyfnod cynllunio'r ased | - Casglodd y CRhAD y gallai Opsiwn 8108.4 (Aberhonddu-Portis: gollyngiadau ychwanegol o Gronfa Ddŵr Wysg), Opsiwn 8206.1 (Sir Benfro: Ailosod ffynhonnell Milton ar gyfer defnydd diwydiannol) ac Opsiwn 8026.20 (Sir Benfro: Trosglwyddo WTW Llys y frân i Breseli) gael effeithiau sylweddol, ond nad yw'r rhain yn debygol o fod yn andwyol, yn seiliedig ar y data a'r wybodaeth sydd ar gael. Yn allweddol, fodd bynnag, bydd y CRhAD yn cadw hyblygrwydd - nid yw'n set anhyblyg o gynigion na ellir gwyro oddi wrthynt – a gellir dibynnu ar hyn (ynghyd â'r dulliau diogelu a ddarperir gan y cylch adolygu pum mlynedd a gofynion arferol Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel prosiect) i sicrhau na fydd effeithiau andwyol yn digwydd ar unrhyw safle Ewropeaidd o ganlyniad i weithrediad y CRhAD.<br><br>Casglodd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd na fydd y CRhAD yn cael unrhyw effeithiau sylweddol nac andwyol ar unrhyw safle Ewropeaidd o ganlyniad i'w weithredu (yn unigol nac mewn cyfuniad â chynlluniau a rhaglenni eraill), a bod digon o fesurau diogelu ar waith i sicrhau hyn. |

| | |
|---|---|
| hwn i gynnal y cydbwysedd rhwng galw a chyflenwad. Hefyd ymgymerir â gweithredu mesurau effeithlonrwydd dŵr.<br><br>Yn Sir Benfro, lle mae'r diffyg wedi cael ei yrru gan effaith sylweddol y RoC ac effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd, cadarnhaodd yr astudiaeth amgylcheddol lefel y gostyngiadau trwydded efallai a fydd eu hangen ar y Cleddau Ddu. Bydd y rhain yn dod i rym o Ebrill 2018, a bydd angen trosglwyddo dŵr crai o gronfa Llys y Frân i WTW Preseli o 3.6Ml/d ar ôl 2018. Hefyd mae angen mewnforio dŵr o'r System Defnydd Cysylltiol Tywi sydd gerllaw, ynghyd â gostyngiad pellach mewn gollyngiadau o oddeutu 4Ml/d erbyn 2024 ac adfer tyllau turio Milton (c2.5Ml/d) i gynnal cydbwysedd cyflenwad a galw hyd at 2040.<br><br>Yn Aberhonddu Portis, bydd gostyngiadau a yrrir gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar Afon Wysg yn cyfyngu tyniadau o ffynhonnell dŵr daear Aberhonddu, gan leihau allbwn y ffynhonnell. Datblygwyd model adnoddau dŵr newydd ar gyfer yr ardal hon. Mae efelychiad modelu'r system gyflenwi wedi gwella cywirdeb yr allbwn defnyddiadwy parthol, gan gyfrif am gyfyngiadau rhwydwaith a lleihad trwyddedau. Hefyd diwygiwyd y galw a ragwelir ar gyfer y parth, gan ystyried gwell cydbwysedd rhwng galw a chyflenwad ar draws y parth. O ganlyniad, bydd gollyngiadau ychwanegol o gronfa Wysg yn ychwanegu at y llif sydd ar gael yn Afon Wysg pan fo angen.<br><br>Yn SEWCUS, nodwyd diffyg bach o 0.5Ml/d ym mlwyddyn olaf y cyfnod cynllunio. Bydd hyn yn cael ei reoli trwy roi gweithgareddau canfod gollyngiadau ychwanegol ar waith. | |

| **Dŵr** | |
|---|---|
| **Cynllun Drafft Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru - Dogfen Ymgynghori 2015.** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Hanner gorllewinol Cymru o Fro Morgannwg yn y de i Sir Ddinbych yn y gogledd. |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ddim ar gael eto |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau Posib a allai achosi effeithiau 'cyfunol'** |
| Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar warchod, gwella a defnyddio'r amgylchedd dŵr yn gynaliadwy. Mae nifer o sefydliadau ac unigolion yn cynorthwyo i warchod a gwella'r amgylchedd dŵr er lles pobl a bywyd gwyllt.<br><br>Mae'r Cynllun yn mabwysiadu dull integredig newydd yn unol â *Rhaglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru, Mesur yr Amgylchedd a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Mae elfennau hanfodol y dull integredig newydd hwn yn cynnwys; bod yn seiliedig ar ardal, cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y cyfnod, cynllunio a chyflwyno ar y raddfa fwyaf priodol, cynllunio ar gyfer y tymor hir, cynllunio i sicrhau manteision lluosog, bod yn seiliedig ar dystiolaeth, a chanolbwyntio ar bobl.<br><br>Mae'r cynllun yn disgrifio'r ardal basn afon sy'n cael ei rannu'n naw dalgylch (Clwyd, Conwy, Ynys Môn, Llŷn ac Eryri, Meirionnydd, Teifi a Gogledd Ceredigion, Afonydd Arfordirol Cleddau a Sir Benfro, Bae Caerfyrddin a Gŵyr, a Thawe i Dregatwg), a'r pwysau y mae'r amgylchedd dŵr yn ei wynebu. | Bydd potensial i'r cynllun hwn wella ansawdd cynefin safleoedd Ewropeaidd yn dylanwadu ar effaith bosibl polisïau i'r dyfodol, a'r llinell sylfaen y mesurir hwy yn ei erbyn. Nid yw'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gael eto. |

| **Dŵr** | |
|---|---|
| **Cynllun Drafft Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru - Dogfen Ymgynghori 2015.** | |
| Nod y CRhBA yw datblygu rhaglen integredig o fesurau erbyn 2021 sy'n bodloni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sy'n; atal dirywiad mewn statws, cyflawni'r amcanion ar gyfer ardaloedd gwarchodedig, a nodau i gyflawni statws cyffredinol dda ar gyfer dŵr wyneb a dŵr daear.<br><br>Nodwyd nifer o fesurau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, sy'n cynnwys camau gweithredu lleol; caiff y mesurau hyn eu trefnu o dan y pynciau canlynol:<br>▪ Ardaloedd gwarchodedig<br>▪ Addasiadau ffisegol<br>▪ Rheoli llygredd o garthion a dŵr gwastraff<br>▪ Rheoli llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth<br>▪ Newidiadau i lif naturiol a lefelau o ddŵr<br>▪ Rheoli rhywogaethau anfrodorol goresgynnol<br>▪ Rheoli llygredd o ardaloedd gwledig<br>▪ Rheoli llygredd o fwyngloddiau<br>▪ Rheoli effeithiau asideiddio<br><br>Mae'r Cynllun hefyd yn tynnu sylw at atebion ymarferol y gall pawb eu cymryd i gyfrannu at gyflawni'r amcanion a osodwyd. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau ynglŷn ag; atal llygredd i afonydd, llynnoedd, dŵr daear a'r môr, arbed dŵr yn yr ardd, arbed dŵr yn y tŷ neu swyddfa, a helpu i ymdrin â'r bygythiad gan rywogaethau anfrodorol goresgynnol. | |

| **Dŵr** | |
|---|---|
| **Cynllun Rheoli Basn Afon Ddyfrdwy 2015-2021 Crynodeb Arfaethedig (Hydref 2015)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Ardal Basn Afon Ddyfrdwy – Ardal o 2,251 cilomedrau sgwâr yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, Swydd Gaer, Sir Amwythig a Chilgwri. |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ddim ar gael eto |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau Posib a allai achosi effeithiau 'cyfunol'** |
| Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar warchod, gwella a defnyddio'r amgylchedd dŵr yn gynaliadwy. Mae nifer o sefydliadau ac unigolion yn cynorthwyo i warchod a gwella'r amgylchedd dŵr er lles pobl a bywyd gwyllt.<br><br>Mae'r Cynllun yn mabwysiadu dull integredig newydd yn unol â *Rhaglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru, Mesur yr Amgylchedd a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Mae elfennau hanfodol y dull integredig newydd hwn yn cynnwys; bod yn seiliedig ar ardal, cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y cyfnod, cynllunio a chyflwyno ar y raddfa fwyaf priodol, cynllunio ar gyfer y tymor hir, cynllunio i sicrhau manteision lluosog, bod yn seiliedig ar dystiolaeth, a chanolbwyntio ar bobl.<br><br>Mae'r cynllun yn disgrifio'r ardal basn afon, a'r pwysau sy'n wynebu'r amgylchedd dŵr. Mae pwysigrwydd strategol y Ddyfrdwy fel ffynhonnell dŵr yfed a'r risg a berir iddi gan lygredd wedi arwain at weld Afon Ddyfrdwy yn dod yn un o'r afonydd mwyaf gwarchodedig yn Ewrop. Yn 1999, dynodwyd | Bydd potensial i'r cynllun hwn wella ansawdd cynefin safleoedd Ewropeaidd yn dylanwadu ar effaith bosibl polisïau i'r dyfodol, a'r llinell sylfaen y mesurir hwy yn ei erbyn. Nid yw'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gael eto. |

| Dŵr | |
|---|---|
| **Cynllun Rheoli Basn Afon Ddyfrdwy 2015-2021 Crynodeb Arfaethedig (Hydref 2015)** | |
| y rhan isaf o afon Ddyfrdwy fel Parth Gwarchod Dŵr cyntaf y DU, a hyd dyma'r unig un. Mae Ardal Basn Afon Ddyfrdwy yn unigryw gan ei bod yn cael ei hystyried yn ddalgylch yn ei hawl ei hun. Dengys y CRhBA beth y mae hyn yn ei olygu i gyflwr presennol yr amgylchedd dŵr, a pha gamau a gymerir i ymdrin â'r pwysau a nodwyd.<br><br>Nod y CRhBA yw datblygu rhaglen integredig o fesurau erbyn 2021 sy'n bodloni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sy'n; atal dirywiad mewn statws, cyflawni'r amcanion ar gyfer ardaloedd gwarchodedig, a nodau i gyflawni statws cyffredinol dda ar gyfer dŵr wyneb a dŵr daear.<br><br>Nodwyd nifer o fesurau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, sy'n cynnwys camau gweithredu lleol; caiff y mesurau hyn eu trefnu o dan y pynciau canlynol:<br><br>▪ Ardaloedd gwarchodedig<br>▪ Addasiadau ffisegol<br>▪ Rheoli llygredd o garthion a dŵr gwastraff<br>▪ Rheoli llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth<br>▪ Newidiadau i lif naturiol a lefelau o ddŵr<br>▪ Rheoli rhywogaethau anfrodorol goresgynnol<br>▪ Rheoli llygredd o ardaloedd gwledig<br>▪ Rheoli llygredd o fwyngloddiau<br>▪ Rheoli effeithiau asideiddio<br><br>Mae'r Cynllun hefyd yn tynnu sylw at atebion ymarferol y gall pawb eu cymryd i gyfrannu at gyflawni'r amcanion a osodwyd. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau ynglŷn ag; atal llygredd i afonydd, llynnoedd, dŵr daear a'r môr, arbed dŵr | |

| **Dŵr** | |
|---|---|
| **Cynllun Rheoli Basn Afon Ddyfrdwy 2015-2021 Crynodeb Arfaethedig (Hydref 2015)** | |
| yn yr ardd, arbed dŵr yn y tŷ neu swyddfa, a helpu i ymdrin â'r bygythiad gan rywogaethau anfrodorol goresgynnol. | |

| **Dŵr** | |
|---|---|
| **Dŵr ar gyfer bywyd a bywoliaeth - Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer Ardal Basn Afon Hafren (2015 Crynodeb Arfaethedig)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Mae Ardal Basn Afon Hafren yn ymestyn dros 21,590km, gyda thraean o'r ardal yng Nghymru |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Ddim ar gael |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau Posib a allai achosi effeithiau cyfunol** |
| Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar warchod, gwella a defnyddio'r amgylchedd dŵr yn gynaliadwy. Mae nifer o sefydliadau ac unigolion yn cynorthwyo i warchod a gwella'r amgylchedd dŵr er lles pobl a bywyd gwyllt. Mae'r Cynllun yn mabwysiadu dull wedi ei seilio ar ddalgylchoedd er mwyn lleihau'r gap rhwng cynllunio rheoli strategol ar lefel ardal basn afon a gweithgaredd ar raddfa corff dŵr lleol. Mae'r amcanion amgylcheddol yn cyd-fynd gydag amcanion y GFFD ac maent wedi eu gosod ar gyfer pob un o'r ardaloedd sydd wedi eu hamddiffyn a chyrff dŵr yn yr ardal basn afon. | Bydd potensial i'r cynllun hwn wella ansawdd cynefin safleoedd Ewropeaidd yn dylanwadu ar effaith bosibl polisïau i'r dyfodol, a'r llinell sylfaen y mesurir hwy yn ei erbyn.<br><br>Mae'r ArhC yn nodi fod yr amrywiaeth o fesurau lliniaru sydd ar gael yn galluogi dod i'r casgliad nad yw'r CRHBA yn debygol o gael effaith arwyddocaolar unrhyw safleoedd Ewropeaidd, ar ben eu hunain neu mewn cyfuniad ag unrhyw gynllun neu phrosiect. Nid oes angen amd AA ar y lefel strategol hwn, |

| Dŵr | |
|---|---|
| **Dŵr ar gyfer bywyd a bywoliaeth - Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer Ardal Basn Afon Hafren (2015 Crynodeb Arfaethedig)** | |
| Nod y CRhBA yw datblygu rhaglen integredig o fesurau erbyn 2021 sy'n bodloni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sy'n; atal dirywiad mewn statws, cyflawni'r amcanion ar gyfer ardaloedd gwarchodedig, a nodau i gyflawni statws cyffredinol dda ar gyfer dŵr wyneb a dŵr daear.<br><br>Craidd y Cynllun drafft yw diweddariad i'r amcanion statws ar gyfer pob corff dŵr. I lawer o ddyfroedd, yr amcan hwn fydd statws da diofyn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD). I rai o'r dyfroedd, lle mae asesiad yn awgrymu bod costau o gyflawni statws da yn fwy na'r manteision, cynigir amcan llai llym. Mae'r amcanion arfaethedig hefyd yn cymryd i ystyriaeth ofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i atal dirywiad mewn statws.<br><br>Mae Ardal Basn Afon Hafren yn cynnwys 10 o ddalgylchoedd rheoli, sydd yn isrannu'n 36 o ddalgylchoedd rheoli gweithredol.<br><br>Mae'r Cynllun yn nodi bod materion rheoli dŵr pwysig yn cynnwys; addasu ffisegol, llygredd o ddŵr gwastraff, llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth, newidiadau i'r llif naturiol a lefel y dŵr, effeithiau negyddol rhywogaethau anfrodorol goresgynnol, llygredd o ardaloedd gwledig, a llygredd o fwyngloddiau segur.<br><br>Mae'r cynllun yn disgrifio'r ardal basn afon, a'r pwysau y mae'r amgylchedd dŵr yn ei wynebu. Mae'n dangos beth mae hyn yn ei olygu i gyflwr presennol yr amgylchedd dŵr, a pha gamau a gymerir i ymdrin â'r pwysau. Mae'r Cynllun yn nodi rhaglen gryno o'r mesurau a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion arfaethedig. Caiff y mesurau eu nodi a'u trefnu o | |

| **Dŵr** | |
|---|---|
| **Dŵr ar gyfer bywyd a bywoliaeth - Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer Ardal Basn Afon Hafren (2015 Crynodeb Arfaethedig)** | |
| dan y pynciau canlynol:<br>▪ Mesurau i atal dirywiad<br>▪ Prif raglen mesurau 2021<br>▪ Mesurau lleol<br>▪ Mesurau ychwanegol i gyflawni amcanionardaloedd wedi eu hamddiffyn. | |

| **Dŵr** | |
|---|---|
| **Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2 – Grwpiau Arfordirol Bae Ceredigion ac Ynys Enlli i Ben y Gogarth (Mehefin 2012)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Datblygwyd Cynllun Rheoli'r Traethlin ar ran Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir Conwy a Chyfoeth Naturiol Cymru a Grŵp Llywio Cleientiaid sy'n cefnogi Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Network Rail, Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.<br><br>Awdurdod Cymwys – Cyngor Sir Penfro |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Y rhan o'r arfordir sy'n ymestyn o St. Anne's Head i Ben y Gogarth, yn cynnwys Ynys Môn. |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Royal Haskoning (Hydref 2010) Atodiad i: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Cyngor Sir Penfro yn: Royal Haskoning (Chwefror 2011) Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2 – Grwpiau Arfordirol Bae Ceredigion ac Ynys Enlli i Ben y Gogarth - Cyngor Sir Penfro |

| **Dŵr** | |
|---|---|
| **Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2 – Grwpiau Arfordirol Bae Ceredigion ac Ynys Enlli i Ben y Gogarth (Mehefin 2012)** | |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau Posib a allai achosi effeithiau 'cyfunol'** |
| Dogfen bolisi ar gyfer cynllunio i reoli gwaith amddiffyn yr arfordir yw'r CRhT. Mae'n cadw mewn cof fentrau cynllunio a gofynion deddfwriaethol eraill a'i fwriad yw bod o gymorth wrth gynllunio'n strategol ac yn ehangach. Mae'n ystyried amcanion, polisïau a gofynion rheoli ar gyfer tri phrif gyfnod; o'r presennol, y tymor canolig a'r tymor hir, yn cyfateb yn fras i gyfnodau amser 0 i 20 mlynedd, 20 i 50 mlynedd a 50 i 100 mlynedd yn eu tro.<br><br>Amcanion y CRhT yw :<br>▪ Nodi risgiau i bobl ac i'r amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol yn sgil llifogydd ac erydu yn ardal astudiaeth CRhT2 ;<br>▪ Nodi cyfleon i gynnal a chadw a gwella'r amgylchedd trwy reoli'r risgiau yn sgil llifogydd ac erydu arfordirol;<br>▪ Nodi'r dewis bolisïau ar gyfer rheoli risgiau yn sgil llifogydd ac erydu dros y ganrif nesaf;<br>▪ Nodi'r canlyniadau o roi'r dewis bolisïau ar waith;<br>▪ Llunio trefniadaethau ar gyfer monitro pa mor effeithiol ydi'r polisïau hyn;<br>▪ Rhoi gwybod i eraill fel bod defnydd tir cynllunio a datblygu'r traethlin yn y dyfodol yn cadw mewn cof y risg a'r dewis bolisïau;<br>▪ Peidio ag annog datblygu amhriodol mewn ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd ac erydu; a<br>▪ Cwrdd â deddfwriaeth cadwraeth natur rhyngwladol a chenedlaethol ac anelu at gyflawni'r amcanion bioamrywiaeth. | Nododd yr ARhC a gynhaliwyd ym mis Hydref 2010 ar gyfer y cynllun hwn, nifer o Barthau Datblygu Polisïau PDZs (11, 12, 13, 16 ac 20) yn ardal CDLl ar y Cyd Gwynedd a Môn, lle nad oedd modd dod i'r casgliad na fyddai eu cyfres o bolisïau yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safleoedd rhyngwladol neu bod effaith andwyol yn debygol (pan nad oes mesurau osgoi).<br>Credir bod y Parthau Datblygu Polisïau yn cael effaith andwyol ar y safleoedd a ganlyn:<br>▪ ACA Pen Llŷn a'r Sarnau – mae disgwyl i ofynion 11 - 13 y Parthau Datblygu Polisïau ostwng y fflat dywod rynglanwol a'r cynefinoedd morfeydd<br>▪ ACA y Fenai a Bae Conwy – mae disgwyl i ofynion 16 ac 20 y Parthau Datblygu Polisïau ostwng cynefin y fflat dywod rynglanwol<br>▪ ACA arfordir Môn: Morfa - mae disgwyl i ofyniad 16 y Parthau Datblygu Polisïau ostwng cynefin y fflat laid rynglanwol<br><br>Dylid ystyried yn ofalus y safleoedd Ewropeaidd uchod. Gallai unrhyw ddatblygiad ger yr ardaloedd hyn neu ynddynt achosi effeithiau cyfunol. |

| **Dŵr** | |
|---|---|
| **Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2 – Grwpiau Arfordirol Bae Ceredigion ac Ynys Enlli i Ben y Gogarth (Mehefin 2012)** | |
| Wrth ddatblygu'r CRhT, mae'r arfordir wedi'i rannu'n saith Ardal Arfordirol cyffredinol. Ymhob un Ardal Arfordirol, ystyriwyd polisïau'r cynllun y tu mewn i Barthau Datblygu Polisïau (PDP). Cynrychiolir polisïau cyffredinol rheoli'r traethlin sy'n cyflawni'r cynllun (a ddiffinnir gan Defra) yn y datganiadau:<br>▪ Dim Tarfu Gweithredol (DTG): lle nad oes buddsoddiad mewn amddiffyn yr arfordir neu waith arno<br>▪ Dal y Traethlin (DyG): trwy gynnal neu newid safon y warchodaeth. Dylai'r polisi hwn fod ar gyfer y sefyllfaoedd hynny lle gwneir gwaith o flaen yr amddiffynfeydd presennol (megis ail-lenwi'r traeth, ailgodi rhan isaf strwythur, adeiladu morgloddiau yn y môr ac ati) er mwyn gwella neu gynnal safon y warchodaeth y mae'r llinell amddiffyn bresennol yn ei rhoi.<br>▪ Cysoni Rheolaeth (CRh): trwy ganiatáu i'r lan symud yn ôl ac ymlaen, gan reoli neu gyfyngu ar symudiad (megis gostwng erydu neu godi amddiffynfeydd newydd ar ochr y tir i'r amddiffynfeydd gwreiddiol).<br>▪ Gwthio'r Lan Ymlaen (GLY): trwy godi amddiffynfeydd newydd ar ochr y môr i'r amddiffynfeydd gwreiddiol. Dylid cyfyngu ar y defnydd a wneir o'r polisi hwn i'r unedau polisi hynny lle ystyrir adfer tir sylweddol. | |

# Gwastraff a Mwynau

| Gwastraff a Mwynau | |
|---|---|
| **Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru Adolygiad 1af (2003-2013 – Adolygwyd 2009)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Y Grŵp Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru gyda chymeradwyaeth ffurfiol gan bob awdurdod lleol cyfansoddol |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Ardaloedd gweinyddol yr ardaloedd a ganlyn: Cyngor Sir Conwy; Cyngor Sir Ddinbych; Cyngor Sir y Fflint; Cyngor Gwynedd; Cyngor Sir Ynys Môn ; Cyngor Sir Powys; Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri; a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam. |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Amherthnasol |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau Posib a allai achosi effeithiau 'cyfunol'** |
| Prif bwrpas y Cynllun yw darparu fframwaith cynllunio defnydd tir a fydd yn cynorthwyo i ddarparu rhwydwaith cynhwysfawr, integreiddiedig a chynaliadwy o gyfleusterau i reoli gwastraff er drwy'r cyfan o Ranbarth Gogledd Cymru. Mae'r cynllun, sy'n ymdrin â'r holl wastraff a reolir, Gwastraff Solet Trefol (MSW), Gwastraff Masnachol a Diwydiannol (C&I), Gwastraff Adeiladu a Dymchwel (C&D), Gwastraff Peryglus, a Gwastraff Amaethyddol.<br><br>Mae'r Cynllun yn rhoi arweiniad yng Nghynlluniau Datblygu Lleol yr Awdurdodau hynny ar sut y dylai'r Awdurdodau unigol yn y rhanbarth gynllunio ar gyfer rheoli eu gwastraff yn gynaliadwy yn y dyfodol. Gwna hyn trwy ragweld pa wastraff a gaiff ei greu yn ardal pob awdurdod yn ogystal â rhoi sylw bras i'r gwahanol ddulliau a chyfleusterau rheoli gwastraff sydd ar gael. | Dogfen arweiniol yw'r Cynllun sy'n rhoi gwaelodlin a chyngor i Awdurdodau Cynllunio Lleol fel bod modd iddynt wneud penderfyniadau ynghylch a ddylent ddyrannu cyfleusterau newydd i reoli gwastraff. O'r herwydd, mae'n annhebygol y bydd unrhyw effeithiau cyfunol. |

| Gwastraff a Mwynau | |
|---|---|
| **Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru Adolygiad 1af (2003-2013 – Adolygwyd 2009)** | |
| Mae'r Cynllun yn nodi nad yw'r seilwaith rheoli gwastraff presennol yn Rhanbarth y Gogledd yn ddigonol i ddelio â'r gwastraff cyfredol a disgwyliedig, yn enwedig seilwaith i ymdrin â gwastraff gweddilliol.<br><br>Roedd y Cynllun gyntaf yn cynnwys dwy elfen oedd â goblygiadau gofodol; roedd yn dyrannu'r capasiti gofynnol ar gyfer pob math o gyfleuster i reoli gwastraff/ adfer adnoddau i bob ardal awdurdod lleol gyda'r bwriad o ddarparu ar gyfer bodloni'r gofynion capasiti hyn mewn Cynlluniau Datblygu; a rhoddodd arweiniad ynglŷn â'r gofynion lleoliadol i bob cyfleuster er mwyn cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i ddyrannu safleoedd. Nododd yr adolygiad na wnaeth y dull hwn ymdrin yn llawn â lleoliad a dosbarthiad y cyfleusterau a allai wasanaethu mwy nag un ardal awdurdod lleol, ac o'r herwydd un o'r elfennau allweddol a nodwyd ar gyfer yr adolygiad oedd datblygu'r elfen ofodol ymhellach.<br><br>Daeth yr AC, AAS a'r AEI ar yr Opsiynau Rheoli Gwastraff Strategol i'r casgliad nad oes yn gyffredinol unrhyw opsiwn rheoli gwastraff gorau. Fodd bynnag, ystyrir mai'r 7 prif opsiwn uchaf yw'r mwyaf cynaliadwy, ymarferol ac addas. Ar ôl i ymgynghori fethu â nodi opsiwn clir a ffefrir, gwnaed y penderfyniad i gadw'r 7 opsiwn fel y fframwaith ar gyfer cynllunio gwastraff yng Ngogledd Cymru. | |

| Gwastraff a Mwynau | |
|---|---|
| **Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru Adolygiad 1af Fersiwn Derfynol (2014)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Paratowyd y Datganiad Technegol Rhanbarthol gan Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru (GARhGC) gyda chyfraniad ar adegau allweddol gan Fforwm Aelodau Rhanbarthol |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Mae'r ardal y mae Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru ac, felly, y Datganiad Technegol Rhanbarthol, yn ymwneud â hi yn cynnwys Ynys Môn, Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau posib all greu effeithiau 'cyfunol'** |
| Prif bwrpas y datganiad yw nodi'r strategaeth ar gyfer darparu'r agregau yn rhanbarth Gogledd Cymru hyd at 2021. Fel bo'n briodol, bydd Awdurdodau Cynllunio Mwynau yng Ngogledd Cymru yna'n cynnwys dyraniadau ar gyfer darparu agregau yn y dyfodol yn eu hardal, fel rhan o'r broses Cynllun Datblygu Unedol / Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>O'r herwydd, bydd y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn ceisio:<br>▪ Gwneud y defnydd mwyaf o ddeunyddiau a gwastraff mwynau eilaidd ac eildro.<br>▪ Diogelu mwynau sydd ar y tir y byddir, o bosib, eu hangen yn y tymor hir<br>▪ Cydnabod bod ymestyn chwareli agregau yn debygol o fod yn briodol os oes modd cyflawni egwyddorion datblygu cynaliadwy<br>▪ Os oes angen ardaloedd newydd o gyflenwadau agregau, dylai'r rhain ddod o fannau lle mae cyfyngiadau isel ar yr amgylchedd, a chadw mewn cof oblygiadau cludiant<br>▪ Cynnal cyflenwad o agregau arforol sy'n gyson ag arfer | Mae'r cyfanswm o dywod a gymerir o'r tir a'r dosraniad graean a nodir dros 22 mlynedd i Wynedd yn 4.4mt, a chyfanswm y dosraniad cerrig mâl a nodir dros 25 mlynedd i Ynys Môn yw 7mt a 6.75mt i Wynedd.<br><br>Posibilrwydd o'r effeithiau cyfunol a ganlyn:<br>▪ Colli Cynefin – cymryd tir<br>▪ Colli Cynefin wrth Gefn - cymryd tir ger safleoedd Ewropeaidd<br>▪ Effeithiau Darnio Cynefinoedd – oherwydd tir a gymerir<br>▪ Mwy o darfu – acwstig, llygredd sŵn a golau; ac<br>▪ Effeithiau wrth ddefnyddio mwy ar y ffordd – Effeithiau yn sgìl mwy o gerbydau trwm:<br>    ▪ effeithiau sŵn uwch (sain, hyd);<br>    ▪ mwy o allyriadau o gerbydau;<br>    ▪ mwy o farwolaethau ar y ffyrdd; ac<br>    ▪ effeithiau mwy o ddarnio. |

| Gwastraff a Mwynau | |
|---|---|
| Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru Adolygiad 1af Fersiwn Derfynol (2014) | |
| amgylcheddol da.<br><br>Mae'r Cynllun yn darparu strategaeth ar gyfer cyflenwi agregau adeiladu yn y dyfodol o fewn y Rhanbarth, gan ystyried y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael o ran y cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw, a syniadau cyfredol ynghylch cynaliadwyedd, gan gynnwys yr egwyddor agosrwydd a chapasiti amgylcheddol. Mae'r Cynllun yn darparu argymhellion strategol; nid oes unrhyw wybodaeth nac arweiniad penodol ar safle.<br><br>Mae'r RTS felly yn darparu argymhellion i'r Awdurdodau Cynllunio Mwynau ynghylch y symiau o agregau sydd angen eu cyflenwi o'u hardal (dosraniadau) a chyfanswm y tunelli o unrhyw ddyraniadau newydd (ardaloedd ar gyfer gwaith yn y dyfodol) y bydd angen eu gwneud o bosibl yn eu Cynllun Datblygu Lleol er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol yn cael ei chynnal drwy gydol cyfnod y Cynllun perthnasol. | |

# Ynni

| Ynni | |
|---|---|
| **Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Gynhyrchu Pŵer Niwclear (EN-6) (2011)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Adran Ynni a Newid Hinsawdd |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Cymru a Lloegr |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Adran Ynni a Newid Hinsawdd (Hydref 2011) Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Greu Pŵer Niwclear – Drafft Diwygiedig: Prif Adroddiad |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau Posib a allai achosi effeithiau 'cyfunol'** |
| Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol (DPS), wrth ei gymryd gyda'r Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar gyfer Ynni (EN-1), yn brif sail ar gyfer penderfyniadau a gymerir gan y Comisiwn Cynllunio Isadeiledd ar geisiadau y mae'n ei dderbyn i godi atomfeydd niwclear newydd ar safleoedd yng Nghymru a Lloegr ac a restrir yn y DPS hwn.<br>Yn rhan 4 y DPS rhestrir y safleoedd y mae'r Llywodraeth wedi'u hasesu i fod o bosib yn addas ar gyfer datblygiad o'r fath cyn diwedd 2025. Dyma nhw:<br>- Bradwell;<br>- Hartlepool;<br>- Heysham;<br>- Hinkley Point;<br>- Oldbury; | Cafwyd ARhC o 'r DPS ar Gynhyrchu Pŵer Niwclear ac roedd yn cynnwys adroddiadau manwl ar effeithiau posib datblygiad sy'n gysylltiedig ag ynni niwclear mewn nifer o safleoedd posib, sy'n cynnwys yr Wylfa. Nid oedd Adroddiad Safle'r ARhC ar gyfer yr Wylfa[2] yn medru diystyru'r posibilrwydd o effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safle chwe safle Ewropeaidd (ACA Bae Cemlyn, AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid, ACA y Fenai a Bae Conwy, AGA Bae Lerpwl, ACA Traeth Lafan ac AGA Ynys Seiriol) oherwydd yr effaith ar adnoddau a lefelau dŵr, colli cynefin (a rhywogaethau) a darnio/gwthio'r arfordir, tarfu (sŵn, golau a gweledol) ac ansawdd aer.<br><br>Er mwyn rhoi sylw i'r ansicrwydd a nodwyd yn yr ARhC ar lefel strategol, cynigiodd yr Asesiad Priodol gyfres o gamau osgoi a lliniaru i'w hystyried fel rhan o unrhyw ARhC ar lefel prosiect. Asesodd yr ARhC y gallai gweithredu ar y camau lliniaru strategol hyn gynorthwyo i roi sylw i'r effeithiau andwyol a |

2 Adran Ynni a Newid Hinsawdd (2010) Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Adroddiad Safle ar gyfer yry Wylfa. EN-6: Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Gynhyrchu Pŵer Niwclear – Drafft Diwygiedig

| Ynni | |
|---|---|
| **Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Gynhyrchu Pŵer Niwclear (EN-6) (2011)** | |
| ▪ Sizewell;<br>▪ Sellafield; ac<br>▪ Yr Wylfa.<br><br>Mae'r ardal a enwebwyd ac sydd yn Nhrwyn yr Wylfa (yn ardal Cynllun Gwynedd a Môn) yn ymestyn i Fôr Iwerddon oddi ar arfordir gogleddol Ynys Môn, oddeutu 15km i'r gogledd-ddwyrain o Gaergybi, rhwng Bae Cemaes a Bae Cemlyn. Mae'n cynnwys y trwyn i'r de o warchodaeth natur leol Mynydd yr Wylfa ac yn ymestyn i'r dwyrain at gyrion gorllewinol pentref Cemaes i'r de i'r A5025 a phentref Tregele ac i'r gorllewin i gilfach Porth-y-pistyll. | nodwyd ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd ond bod raid wrth fwy o ARhC ar lefel prosiect manwl er mwyn dod i gasgliad ynghylch eu heffeithiolrwydd.<br><br>Daethpwyd i'r casgliad, "yn seiliedig ar brofiad ArhC, barn broffesiynol a'r cyngor yn sgil yr ymgynghoriad, mae'n rhesymol dod i'r casgliad y gallai'r mesurau a awgrymir fod yn ddigonol i osgoi a/neu liniaru'r effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd a nodir. Fodd bynnag, nid oes modd bod yn siŵr o effeithlonrwydd y mesurau a fwriedir trwy ArhC ar lefel prosiect, lle bydd manylion penodol y datblygiadau a'r prif ffynonellau data ar gael". Dim ond wrth gael ArhC ar lefel prosiect y mae modd casglu'n hyderus na cheid effaith andwyol ar gyfanrwydd safle." |

| Ynni | |
|---|---|
| **Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni (EN-1) (2011)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Adran Ynni a Newid Hinsawdd |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | DG |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Adran Ynni a Newid Hinsawdd (Hydref 2010) Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o EN-1 I EN-5 |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau posib all greu effeithiau 'cyfunol'** |
| EN-1, sy'n ymwneud â:<br>● y fframwaith rheoleiddio a pholisi ac amcanion lefel uchel ar gyfer prosiectau yng nghyswllt adeiladau newydd sy'n genedlaethol arwyddocaol ac sy'n cael eu diogelu gan y | Cynhaliwyd Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) a'u cyhoeddi ar gyfer y Datganiadau Polisi Cenedlaethol nad ydynt yn benodol ar gyfer lleoliad EN-1 i EN-5. Ni allai'r ARhC ddod i gasgliad pendant y câi pob safle Ewropeaidd ledled Cymru a Lloegr ei ddiogelu, yn absenoldeb ceisiadau |

| **Ynni**<br>**Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni (EN-1) (2011)** | |
|---|---|
| gyfres o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol ac unrhyw ddatblygiad cysylltiedig (y cyfeirir atynt fel Rhaglenni Cenedlaethol Gwella Gorsafoedd (NSIPs)<br>• yr angen a'r brys am ganiatâd ar gyfer gorsaf ynni newydd a'i chodi gyda'r amcan o gyfrannu at gyflenwad ynni diogel, gwahanol a fforddiadwy, a chefnogi polisïau'r llywodraeth ar ddatblygu cynaliadwy, yn enwedig felly trwy liniaru newid hinsawdd ac addasu iddo;<br><br>• yr angen am dechnolegau penodol, yn cynnwys yr adeiladau y mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn yn ymwneud ag o;<br><br>• egwyddorion allweddol i'w dilyn wrth archwilio a phenderfynu ar geisiadau;<br><br>• rôl Arfarniadau Cynaliadwyedd (gweler Adran 1.7 isod) yng nghyswllt y gyfres o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol ;<br><br>• polisi ar arfer da, addasu i newid hinsawdd a materion eraill sy'n berthnasol i fwy nag un Datganiad Technegol Cenedlaethol sy'n dechnolegol benodol; ac<br><br>• asesu effeithiau generig nad ydynt yn benodol i dechnolegau penodol, ac ymdrin â nhw | cynllunio penodol.  Cafwyd nad oedd dewis clir arall a fyddai'n hwyluso gwaith datblygu gorsaf  ynni ar raddfa fawr heb niweidio safleoedd Ewropeaidd.  Yna noda'r ARhC yr achos dros ddatblygu gorsaf ynni newydd sy'n hanfodol ar gyfer sicrhau'r ymrwymiad ar gyfer ynni glân, diogel a fforddiadwy.  Mae, hefyd, yn nodi'r meini prawf ar gyfer darparu cynefin cyfadferol pe byddai'n angenrheidiol.<br><br>Byddai raid i unrhyw fwriadau am orsaf ynni ar raddfa fawr gael ARhC ar lefel prosiect.  Fodd bynnag, pery'r posibilrwydd o ystod o effeithiau cyfunol, sy'n cynnwys yr isod:<br><br>▪ Colli Cynefin – cymryd tir oherwydd isadeiledd ynni newydd<br>▪ Colli cynefin wrth gefn – cymryd tir oherwydd isadeiledd ynni newydd ger safleoedd Ewropeaidd<br>▪ Effeithiau Darnio Cynefin  - cymryd tir oherwydd isadeiledd ynni newydd ar safleoedd Ewropeaidd neu gerllaw iddynt<br>▪ Mwy o darfu;<br>▪ Mwy o dynnu dŵr; dŵr wyneb yn rhedeg oddi ar y safle a charthion yn gollwng, a allai ostwng ansawdd a lefelau'r dŵr; ac<br>▪ Effeithiau wrth ddefnyddio mwy ar y ffordd – Effeithiau yn sgìl mwy o draffig, a cherbydau trwm yn ystod gwaith adeiladu a gweithredu, yn cynnwys:<br>  ▪ effeithiau sŵn uwch (sain, hyd);<br>  ▪ mwy o allyriadau o gerbydau;<br>  ▪ mwy o farwolaethau ar y ffyrdd; ac<br>  ▪ effeithiau mwy o ddarnio. |

| **Ynni** | |
|---|---|
| **Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni (EN-1) (2011)** | |
| | |

| **Ynni** | |
|---|---|
| **Ynni Cymru: Newid i Garbon Isel (2012)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Llywodraeth Cymru |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Cymru |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Amherthnasol |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau posib all greu effeithiau 'cyfunol'** |
| Yn y ddogfen nodir nod Llywodraeth Cymru o wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Cymru a chael ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol.<br><br>Trwy roi arweiniad a fframwaith sefydlog, trwy wneud y mwyaf posib o fanteision pob datblygiad ynni ac effeithlonrwydd ynni, a thrwy roi Cymru ar y blaen o ran harneisio ynni o'r môr a symud i fyw'n ddoeth, bydd modd sylweddoli'r weledigaeth o | Mae'r ddogfen yn ategu Ynys Ynni Môn ynghyd â datblygu gorsaf niwclear yn yr Wylfa. A fyddech cystal â chyfeirio at yr effeithiau cyfunol a nodwyd ar gyfer Drafft Diwygiedig y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Creu Pŵer Niwclear a Gorsaf Bŵer Wylfa B. |

| **Ynni** | |
|---|---|
| **Ynni Cymru: Newid i Garbon Isel (2012)** | |
| ddyfodol heb garbon. | |

| **Ynni** | |
|---|---|
| **SeaGen, Cynlluniau Ynni'r Llanw, Ynys Môn (2015)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | SeaGeneration (Wales) Ltd/ Cyngor Sir Ynys Môn |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Arfordirol gogleddol Ynys Môn mewn ardal rŝs lanw a adwaenir fel Ynysoedd y Moelrhoniaid |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Dim ar gael |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau Posib a allai achosi effeithiau 'cyfunol'** |
| Mae SeaGeneration (Wales) Ltd (SeaGen Cymru), partneriaeth Marine Current Turbines Ltd (MCT) ac RWE npower Renewables (RWE nrl), wedi cael caniatâd yn 2015 i ddatblygu 'Skerries Tidal Stream Array' 10MW. Bydd y prosiect yn cynrychioli fferm ynni llanw masnachol cyntaf yng Nghymru i gael ei ganiatáu yn y DU.<br><br>Bydd yr arae yn cael ei leoli oddi ar arfordir gogledd-orllewin Ynys Môn yng Ngogledd Cymru, a bydd yn cynnwys pum tyrbin llif llanw SeaGen 2MW mewn ardal rhwng y grŵp creigiau ac ynysoedd y Moelrhoniaid a Thrwyn y Gader tua 1km oddi ar arfordir Ynys Môn yn agos at borthladd Caergybi, mewn tua 20 i 40m o ddyfnder dŵr. Mae'r prosiect wedi sicrhau | Daw'r Asesiad ar yr Effaith Amgylcheddol i'r casgliad nad yw'n debygol y bydd effeithiau andwyol sylweddol yn debygol ar safleoedd o gadwraeth natur a ddynodwyd dan statud rhyngwladol a chenedlaethol, gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol a safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Dylid ystyried yn ofalus wrth neilltuo safleoedd eraill i gynhyrchu ynni posib yn yr ardal hon gan y gallai hyn arwain at effeithiau cyfunol. |

| **Ynni** | |
|---|---|
| **SeaGen, Cynlluniau Ynni'r Llanw, Ynys Môn (2015)** | |
| £10M drwy 'Marine Energy Array Demonstration Fund' DECC a bydd yn cyflenwi hyd at 10,000 o gartrefi gyda thrydan eco-gyfeillgar. Bydd y prosiect hefyd yn darparu manteision i'r gadwyn gyflenwi gymunedol a lleol yn ystod y gwaith adeiladu a gosod, yn ogystal ag yn y tymor hir drwy swyddi mewn gweithrediadau a chynnal a chadw a monitro amgylcheddol. | |

| **Ynni** | |
|---|---|
| **Gwynt y Môr (2011)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Gwynt y Môr Offshore Wind Farm Ltd / Adran Masnach a Diwydiant |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Bae Lerpwl |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Dim ar gael |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau Posib a allai achosi effeithiau 'cyfunol'** |
| Gwynt y Môr yw'r fferm wynt ar y môr fwyaf yn y byd a adeiladwyd a'i ariannwyd gan RWE Innogy DU sydd yn ei hadeiladu ym Mae Lerpwl oddi ar Arfordir Gogledd Cymru. Mae 160 o dyrbinau yn weithredol ar hyn o bryd, gyda capasiti o 576MW, gan ddefnyddio tyrbinau Siemens 3.6MW a generaduron. Mae'n gallu cynhyrchu digon o ynni i ddiwallu anghenion ynni blynyddol cyfartalog tua 400,000 o gartrefi, tua thraean o gyfanswm nifer y cartrefi yng Nghymru gyfan. | Edrychodd y Datganiad Amgylcheddol ar yr effeithiau posib ar yr hyn oedd yr Ardal Gwarchod forwrol Arbennig 'arfaethedig' sydd wrthi'n cael ei hystyried ym Mae Lerpwl ar hyn o bryd (Ardal Gwarchod Arbennig lawn erbyn hyn). Mae'r asesiad o'r effeithiau posib ar yr adar a'u cynefinoedd wedi dangos na fydd yno effeithiau sylweddol, o gofio'r camau lliniaru arfaethedig yng nghyswllt amseru gosod y prif geblau allforio ynni. Er na fydd y fferm wynt arfaethedig yn cael effaith uniongyrchol arnynt, mae nifer o safleoedd Ewropeaidd eraill yn digwydd ar arfordiroedd Cymru a Lloegr o Fae Lerpwl oherwydd y gyfran o adar maent yn eu cefnogi. Mae effaith |

| **Ynni** | |
|---|---|
| **Gwynt y Môr (2011)** | |
| Argychwynwyd y fferm wynt, gan gynnwys yr 160 seilweithiau, tyrbinau a is-orsafoedd ar 18 Mehefin 2015.<br><br>Cynhaliwyd Asesiad o'r prosiect o ran ei effaith ar yr amgylchedd, a hynny'n unol â rheoliadau er mwyn adnabod ac asesu holl effeithiau amgylcheddol sylweddol y datblygiad. Nodir disgrifiad o fwriad y prosiect, ynghyd â chasgliad yr asesiad ar yr effaith, yn y Datganiad Amgylcheddol. | bosib Gwynt y Môr ar y safleoedd hyn wedi'i hasesu o ran eu diddordeb adaregol ac ni ragwelir effeithiau sylweddol.<br><br>Fel rhan o'r asesiad, edrychwyd i mewn i effeithiau uniongyrchol ar ardaloedd eraill o ddiddordeb cadwraeth natur. Mae'n bosib i hyn ddigwydd, er enghraifft, pe byddai newidiadau i gerrynt neu donnau llanw yn altro prosesau arfordirol ar hyd arfordiroedd cyfagos. Daeth yr asesiad o brosesau ffisegol i'r casgliad na fydd effeithiau sylweddol ar ardaloedd arfordirol yn digwydd ac, o'r herwydd, yn yr un modd ni fydd effeithiau cysylltiedig ar safleoedd arfordirol ym Mae Lerpwl.<br><br>Ym mae Lerpwl hefyd credir bod ystod o gynefinoedd gwely'r môr, rhywogaethau pysgod a mamaliaid morwrol o ddiddordeb cadwraethol, megis llamhidyddion a morloi. Mae'r asesiad o effeithiau posib wedi dod i'r casgliad, o gofio'r camau lliniaru y manylir arnynt yn yr adrannau blaenorol, na fydd yr effeithiau ar statws cadwraethol y rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn yn sylweddol.<br><br>Dylid ystyried yn ofalus wrth neilltuo safleoedd eraill i gynhyrchu ynni posib yn yr ardal hon gan y gallai hyn arwain at effeithiau cyfunol. |

| **Ynni** | |
|---|---|
| **Gorsaf Bŵer Niwclear Newydd Wylfa** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Horizon Nuclear Power Ltd / Comisiwn Cynllunio Isadeiledd |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Yr Wylfa |
| **Gwaith Cysylltiedig - Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | I'w gynnal |

<table>
<tr><th colspan="2">Ynni</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gorsaf Bŵer Niwclear Newydd Wylfa</th></tr>
<tr><th>Manylion y Ddogfen</th><th>Effeithiau Posib a allai achosi effeithiau 'cyfunol'</th></tr>
<tr><td>Mae'r safle arfaethedig ar dir wrth ymyl yr orsaf bŵer niwclear Magnox bresennol yn Wylfa sydd wedi cau erbyn hyn ac yn mynd trwy gyfnod o ddad-danwyddo tan 2018. Yn dilyn caffael Horizon Nuclear Power gan Hitachi, y cynllun yw cyflwyno dau Uwch Adweithydd Dŵr Berw (UADB), gan gynhyrchu o leiaf 2,700MW yn yr Wylfa Newydd.<br><br>Mae cam cyntaf yr ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y gweill ar y prosiect. Mae'r prosiect yn cael ei gynllunio ar sail gwaith clirio'r safle yn dechrau yn 2015 gan arwain at ddechrau'r gwaith mawr ar y safle yn 2018 a'r adeiladu niwclear cyntaf tua 2019. Fodd bynnag, dim ond ar ôl i'r dechnoleg Uwch Adweithydd Dŵr Berw gael Asesiad Cynlluniau Cyffredinol (GDA) gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ac Asiantaeth yr Amgylchedd y gall adeiladu gychwyn. Bydd y broses hon yn parhau am nifer o flynyddoedd ac yn diffinio p'un a fydd y rheoleiddwyr yn ystyried technoleg UADB yn briodol ar gyfer ei symud i'r cam trwyddedu safle-benodol.<br><br>Amlinelliad o'r Prosiect<br>Mae disgwyl i'r Gorsaf Bŵer Niwclear newydd yn yr Wylfa gynnwys yr isod:<br>- atomfa yn cynnwys dau adweithyddion niwclear gyda gallu cynhyrchu lleiafswm o2700MW<br>- Cyfleuster di-lwytho Morol (MOLF)<br>- Strwythur oeri dŵr menlifol ac arlwwysol<br>- Isadeiledd trosglwyddo trydan;<br>- Adeiladau eraill fel swyddfeydd gwweinyddol, gan</td><td>Nododd Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol bod Llywodraeth y DU wedi cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd strategol ar Safle Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa yn NPS EN-6 er mwyn archwilio'r goblygiadau i Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd o leoli gorsaf bŵer niwclear newydd yng nghyffiniau'r Wylfa. Daeth i'r casgliad na ellir diystyru'r posibilrwydd o effeithiau andwyol ar gyfanrwydd Safleoedd Ewropeaidd sy'n gyfagos i neu bellter o'r Wylfa. Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 6(4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, archwiliodd Llywodraeth y DU y dewisiadau eraill sydd ar gael i'r cynllun a chanfod na fyddai unrhyw ddewisiadau eraill yn osgoi'r potensial hwn ar gyfer effeithiau, gan arwain at iddi gyflwyno achos rhesymau hanfodol, sef er budd cyhoeddus tra phwysig, sy'n disgrifio pam y dylai'r cynllun fynd yn ei flaen hyd yn oed yn wyneb goblygiadau anhysbys. Ni allai'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel strategol ddiystyru'r posibilrwydd o effaith andwyol ar gyfanrwydd safle mewn chwe safle Ewropeaidd, drwy effeithiau ar adnoddau ac ansawdd dŵr, colli a darnio cynefinoedd a rhywogaethau/ cywasgu arfordirol, tarfu (sŵn, golau a gweledol), ac ansawdd yr aer. Y chwe safle yw:<br><br>- ACA Bae Cemlyn<br>- ACA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid<br>- ACA Afon Menai a Bae Conwy<br>- AGA Bae Lerpwl<br>- AGA Traeth Lafan<br>- AGA Ynys Seiriol<br><br>Cynhyrchwyd Taflenni Gwybodaeth ar  y testunau: yr iaith Gymraeg a diwylliant; strategaeth pensaerniol, strategaeth gweithwyr adeiladu dros dro; strategaeth swyddi a sgiliau; strategaeth traffif integredig a strategaeth trafnidiaeth; strategaethadloniant a mynediad cyhoeddus; strategaeth</td></tr>
</table>

| Ynni | |
|---|---|
| **Gorsaf Bŵer Niwclear Newydd Wylfa** | |
| gynnwys cyfleusterau parcio a theithio, lletai gweithwyr dros dro ac o leiaf un canolfan logisteg.<br>- Cyfleusterau storio gwastraff dros dro;<br>- Cyfleusterau i ffwrdd o'r safle gan gynnwys Canolfan Rheoli Argyfyngau Amgen, Labordy Arolwg Amgylcheddol a Garej Cyfarpar Argynfyngau Symudol.<br>- Ffyrdd mynediad; a<br>- Mentrau a chamau lliniaru i reoli unrhyw ardrawiadau sy'n gysylltiedig gyda chodi a gweithredu atomfa newydd.<br><br>Mae safle'r datblygiad arfaethedig yn agos i ddau safle Ewropeaidd; Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Cemlyn ac Ardaloedd Gwarchod Arbennig Ynys Feurig, Ynysoedd y Moelrhoniaid a Bae Cemlyn. Mae'r ddau oddeutu 1km i'r gorllewin o'r safle. Mae yno safleoedd Ewropeaidd eraill, er nad ydynt yn agos i'r Wylfa. Y rhain yw ACA y Fenai a Bae Conwy ac ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. | buddion cymunedol, cynlluntirwedd ac amgylcheddol; a gwastraff ymbelydrol, er mwyn cefnogi'r ymgynghoriad am ail gam o'r cais. |

| Ynni | |
|---|---|
| **Y Grid Cenedlaethol: Cysylltiadau Gogledd-Orllewin Cymru (2013)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Y Grid Cenedlaethol |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Gogledd Cymru |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad** | Amherthnasol |

<table>
<tr><th colspan="2">Ynni</th></tr>
<tr><th colspan="2">Y Grid Cenedlaethol: Cysylltiadau Gogledd-Orllewin Cymru (2013)</th></tr>
<tr><th>Manylion y Ddogfen</th><th>Effeithiau posib all greu effeithiau 'cyfunol'</th></tr>
<tr><td>Ym mis Hydref 2012, dechreuodd y Grid Cenedlaethol ei gyfnod cyntaf o ymgynghori ar ei fwriadau i gysylltu offer newydd i greu trydan yng Ngogledd Cymru. Er mwyn cysoni bwriadau i gysylltu Gorsaf Bŵer Niwclear newydd arfaethedig Horizon yn yr Wylfa o hyd at 3.6 gigawatt (GW), mae'r Grid Cenedlaethol wedi sefydlu bod angen cysylltiadau trydan newydd i'r rhwydwaith presennol yng Ngogledd Cymru.<br><br>Yn sgil proses opsiynau strategol, y dewis opsiwn oedd cysylltiad dros y tir, oedd yn cynnwys tri phecyn allweddol o waith :<br>Cysylltiad uwchben rhwng yr Wylfa a Phentir<br>Is-orsaf newydd ym Mryncir<br>Cysylltiad ychwanegol tan ddaear yn lle'r cysylltiad presennol yng Nglaslyn. Byddai'r cysylltiad hwn wedi'i uwchraddio.<br><br>Mae cynlluniau hefyd wedi cael eu cadarnhau i roi'r cysylltiad dan y ddaear yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yr Afon Menai ac Ynys Môn.<br><br>Mae'r llwybr yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, a chyhoeddwyd yn Ionawr 2015 mai'r coridor llwybr oren yw'r dewis a ffefrir. Y llwybr hwn yw'r byrraf o'r holl opsiynau a ystyriwyd a lle mae'r boblogaeth leiaf trwchus, mae i ffwrdd o'r arfordir ac i ffwrdd oddi wrth y trefi a'r pentrefi mwyaf, gan osgoi eiddo gymaint â phosibl. Mae'r llwybr hefyd yn agos at y llinell bresennol ac yn cadw cyfarpar newydd a phresennol yn agos at ei gilydd.</td><td>Posibilrwydd o'r effeithiau cyfunol a ganlyn:<br>▪ Colli Cynefin – cymryd tir<br>▪ Colli Cynefin wrth Gefn - cymryd tir ger safleoedd Ewropeaidd<br>▪ Effeithiau Darnio Cynefinoedd – o ganlyniad i'r tir a gymerir<br>▪ Mwy o darfu – acwstig, llygredd sŵn a golau; ac<br>▪ Effeithiau wrth ddefnyddio mwy ar y ffordd – Effeithiau yn sgil mwy o gerbydau trwm:<br>  ▪ effeithiau sŵn uwch (sain, hyd);<br>  ▪ mwy o allyriadau o gerbydau;<br>  ▪ mwy o farwolaethau ar y ffyrdd; ac<br>  ▪ effeithiau mwy o ddarnio.</td></tr>
</table>

| **Ynni** | |
|---|---|
| **Y Grid Cenedlaethol: Cysylltiadau Gogledd-Orllewin Cymru (2013)** | |
| | |

## Eraill

| **Eraill** | |
|---|---|
| **Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru (2010-2015)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Mae'r strategaeth yn cynnwys y cyfan o Ogledd Cymru, wedi'i ddiffinio fel y chwe sir, sef Ynys Môn, Conwy, Dinbych, y Fflint, Gwynedd a Wrecsam |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Amhriodol |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau Posib a allai achosi effeithiau 'cyfunol'** |
| Pwrpas y strategaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn un o 5 prif gyrchfan twristiaeth y DG, sy'n ryngwladol enwog am ei brydferthwch naturiol, ei olygfa ddramatig, ei dreftadaeth a'i ddiwylliant penodol. Lle y medrwch frolio i chi ymweld ag o, hawdd i gael yno ond yn wahanol a'i werth o. Canolfan ragoriaeth ar gyfer chwaraeon antur ac arweinydd y farchnad o ran twristiaeth gweithgareddau o bob math. Digonedd ym mynd ymlaen bob adeg o'r flwyddyn, waeth beth yw'r tywydd, a chyda diwylliant fywiog a byw a llwyfan gelfyddydol ffyniannus. Lle y siaredir llawer amdano ac sy'n ymddangos yn y cyfryngau am safon ei fwyd, ei letygarwch a'r llefydd diddorol i aros. Rhanbarth sy'n falch o'i dreftadaeth a'i ddiwylliant, sy'n gofalu am ei asedau naturiol ac sy'n croesawu ymwelwyr.<br><br>Lluniwyd Cynllun Gweithredu er mwyn mynd â'r strategaeth yn ei blaen am y tair blynedd nesaf:<br><br>**1. Cyflwyno ein cryfderau penodol**<br>Mae gofyn i Ogledd Cymru fod yn ôl ar fap yr ymwelwyr, a | Mae mwy o bwysau adloniannol gan y boblogaeth drefol, yn cynnwys mynd â'r ci am dro, loncian, marchogaeth ceffylau, beicio mynydd, sgramblo beic modur, gyrru ceir ar fannau oddi ar y ffordd, i gyd yn arwain at y posibilrwydd o achosi effeithiau sylweddol ar safleoedd. Yn eu plith :<br>▪ Effeithiau llygredd – Gall cynnydd yn lefel y chwaraeon dŵr arwain at y posibilrwydd o gynyddu lefelau llygredd dŵr gwasgaredig.<br>▪ Llygru'r atmosffer – gallai mwy o dwristiaeth arwain at fwy o symudiadau trafnidiaeth, a allai yna arwain at fwy o lygru'r atmosffer.<br>▪ Difrod ffisegol, er enghraifft yn sgil sathru ac erydu<br>▪ Tarfu ar rywogaethau yn sgil cerdded, beicio a chwaraeon dŵr, yn arwain at fwy o farwolaethau a nythu, a symud.<br>▪ Tarfu gan gŵn a difrod o faw ci. |

| Eraill | |
|---|---|
| **Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru (2010-2015)** | |
| hynny'n gadarn ac yn bendant, ac ailsefydlu ei hun fel un o 5 prif gyrchfan y DG trwy: gael ei yrru gan y farchnad; gwneud argraff gryfach; a chyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n codi'r ysbryd.<br><br>**2. Buddsoddi mewn rhagoriaeth cynnyrch**<br>Rhaid i ddatblygiad a buddsoddiad gael eu hysgogi yn y cynnyrch craidd er mwyn cwrdd ag anghenion marchnad sy'n newid, mynd y tu draw i ddisgwyliadau cwsmeriaid a bod cystal â phawb arall trwy ddarparu: llety o safon: atyniadau gwahanol; gweithgareddau rhagorol; profiad neilltuol; llefydd a reolir yn dda; profiadau sy'n cyfoethogi; trafnidiaeth effeithlon a phobl â sgiliau.<br><br>**4. Gweithio efo'n gilydd mewn partneriaeth**<br>Gwella perthynas weithio a threfn er mwyn harneisio egni'r sectorau cyhoeddus, preifat a dim elw, gan annog hinsawdd o gydweithredu a chefnogi'r naill a'r llall; symud twristiaeth i fyny'r agenda, ceisio ffyrdd mwy effeithlon a thryloyw o weithio a chael eu gyrru fwy gan dystiolaeth trwy: drefnu effeithiol; cydnabyddiaeth well a defnyddio tystiolaeth gadarn. | |

| Eraill | |
|---|---|
| **Adnewyddu'r Economi : Cyfeiriad Newydd (2010)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Cymru |

| Eraill | |
|---|---|
| **Adnewyddu'r Economi : Cyfeiriad Newydd (2010)** | |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Amherthnasol |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau Posib a allai achosi effeithiau 'cyfunol'** |
| Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd – yn hwn nodir y rôl y gall y llywodraeth ddatganoledig ei chwarae wrth ddarparu'r amodau a'r fframwaith orau fel bod modd i'r sector preifat dyfu a ffynnu.<br><br>Y weledigaeth am adfywiad yn yr economi yw economi Gymreig wedi'i godi ar gryfder a sgiliau ei bobl a'i amgylchedd naturiol; sy'n cael ei gydnabod gartref a thramor fel un hyderus, creadigol ac uchelgeisiol, lle da i fyw a gweithio ynddo.<br><br>Dyma'r pum blaenoriaeth ar gyfer cyflawni'r weledigaeth hon:<br>▪ "Buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o safon. Mae angen seilwaith modern a chynaliadwy ar Gymru i gynnal twf economaidd a lles ein pobl. Mae angen cysylltiadau da ar ein pobl, ein busnesau a'n cymunedau o fewn Cymru a thu hwnt ac mae angen iddynt allu gael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau cywir yn y lleoedd y maent yn byw a gweithio.<br>▪ Gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i wneud busnes. Mae angen i ni ddatblygu amodau sydd nid yn unig yn galluogi ond yn helpu pobl a busnesau i ffynnu mewn modd cynaliadwy – drwy fanteisio i'r eithaf ar ein hasedau, trwy wella iechyd ein poblogaeth o oedran gweithio a chael cydbwysedd rhwng amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.<br>▪ Ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau. Sylfaen pob economi | Rhaid nodi y bydd unrhyw fuddsoddi yn yr economi yn debygol o arwain at fwy o boblogaeth a datblygu tir. Gallai hyn achosi ystod eang o effeithiau cyfunol er bod y ddogfen wedi'i chynnal gan egwyddorion datblygu cynaliadwy. |

| **Eraill** | |
|---|---|
| **Adnewyddu'r Economi : Cyfeiriad Newydd (2010)** | |
| yw ei boblogaeth sy'n gweithio ac mae addysg a sgiliau ar bob lefel yn hanfodol er mwyn sicrhau twf economaidd ffyniant yng Nghymru. Mae cyflawni hyn yn gyfrifoldeb ar y cyd arnom ni fel Llywodraeth, darparwyr addysg, cyflogwyr ac unigolion.<br>▪ Annog arloesedd. Mae ymchwil a datblygu'n chwarae rôl bwysig o ran ysgogi arloesedd ac arloesedd yw un o'r ffactorau allweddol sy'n hybu twf economaidd a chynnydd hirdymor mewn lles. Rhaid i Gymru symud at economi seiliedig ar wybodaeth sy'n cynnwys mwy o ymchwil a datblygu lle mae'r amodau'n gywir i arloesedd ffynnu<br>▪ Targedu'r cymorth yr ydym yn ei gynnig i fusnesau. Mae angen i ni dargedu ein hadnoddau yn<br>▪ y mannau lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf, gan weithredu fel cyfrwng galluogi ar gyfer yr economi i gyd yn hytrach na darparwr gwasanaethau mawr i fusnesau unigol. Byddwn yn cynorthwyo busnesau mewn ffordd strategol sy'n seiliedig ar sectorau gan ddatblygu ein rôl fel hwylusydd a galluogydd arbenigol. | |

| **Arall** | |
|---|---|
| **Cynllun Rheoli Cyrchfannau (2012 -2016)** | |
| **Perchennog y Cynllun/ Awdurdod Cymwys** | Y Cwmni Twristiaeth a Chyngor Sir Ynys Môn |
| **Rhanbarth / Ardal dan Sylw** | Ynys Môn |
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Amherthnasol |

| **Arall** | |
|---|---|
| **Cynllun Rheoli Cyrchfannau (2012 -2016)** | |
| **Manylion y Ddogfen** | **Effeithiau posib all greu effeithiau 'cyfunol'** |
| Mae twristiaeth yn hynod bwysig i economi Gogledd Cymru a chredwn y gall hyd yn oed chwarae rhan fwy arwyddocaol yn y dyfodol. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y gallwn gyflawni ei botensial ac mae'n lasbrint ar gyfer arwain gwaith dros y pum mlynedd nesaf.<br><br>Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau'n nodi'r ffiniau ar gyfer datblygu twristiaeth ym Môn dros y pedair blynedd nesaf (2012-2016). Fodd bynnag, yr oll yw'r cynllun yw arf mewn proses Cynllun Rheoli Cyrchfannau. Nid diwedd y daith yw hwn, fel petai ond, yn hytrach, bwynt cyfeirio hyblyg y bydd yn rhaid ei adolygu a'i ddiweddaru trwy gyfnod y cynllun a thu draw i hynny.<br><br>Dyma amcanion strategol y Cynllun Rheoli Cyrchfannau:<br>▪ Hyrwyddo delwedd a chryfderau neilltuol Môn;<br>▪ Buddsoddi mewn rhagoriaeth cynnyrch;<br>▪ Rhoi profiad eithriadol i ymwelwyr;<br>▪ Gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid lleol. | Yn ategu gwaith uwchraddio, ymestyn, a datblygu atyniadau, gweithgareddau a llety i ymwelwyr. Mae, hefyd, yn ceisio gwella mynediad i'r arfordir ac i'r cefn gwlad. Mae posibilrwydd i'r cynllun gynyddu lefelau tarfu yn sgil mwy o dwristiaeth ac, felly, weithgareddau hamdden. |

| **Arall** | |
|---|---|
| **Cynllun Rheoli Cyrchfannau (2013-2020)** | |
| **Cynllun Perchennog/ Awdurdod Cymwys** | Cyngor Gwynedd |

| **Rhanbarth/ Pwnc o dan sylw Daearyddol** | Ardal weinyddol Cyngor Gwynedd |
|---|---|
| **Gwaith Cysylltiedig - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol** | Amherthnasol |
| **Manylion Dogfen** | **Effeithiau posibl a allai achosi 'cyfunol' effeithiau** |
| Gweledigaeth sylfaenol Cynllun Rheoli Cyrchfannau Gwynedd yw *Gwynedd fel cyrchfan ymwelwyr o ansawdd integredig o'r radd flaenaf, yn cael ei werthfawrogi oherwydd ei dirweddau arbennig o fri rhyngwladol, ei amgylchedd adeiledig ysblennydd a'i ddiwylliant Cymreig unigryw.*<br><br>Prif amcanion Cynllun Rheoli Cyrchfannau Gwynedd yw:<br><br>▪ Ymestyn y tymor twristiaeth<br>▪ Cynyddu gwariant ymwelwyr<br>▪ Gwella ansawdd profiad yr ymwelydd<br>▪ Gwella integreiddio twristiaeth gydag agweddau eraill ar fywyd<br>▪ Gwella'r amgylchedd naturiol, adeiledig a diwylliannol<br>▪ Adeiladu a chynnal seilwaith ac amwynderau cyhoeddus o safon<br>▪ Darparu swyddi o ansawdd, â chyflog da, drwy gydol y flwyddyn, a datblygu sgiliau<br><br>Ymchwilir i'r gofynion seilwaith gan gynnwys; darpariaeth parcio a rheoli traffig, strydlun ac arwyddion; drwy'r Cynllun. | Cefnogi uwchraddio, ehangu a datblygu atyniadau, gweithgareddau a llety i ymwelwyr. Potensial ar gyfer y cynllun i gynyddu lefelau o aflonyddwch drwy fwy o dwristiaeth, a thrwy hynny weithgarwch hamdden. |